

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Bil Cynllunio (Cymru)
Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor

Ionawr 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565

E-bost: SeneddAmgylch@Cynulliad.Cymru

Twitter: [@SeneddAmgylch](https://twitter.com/SeneddAmgylch)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Bil Cynllunio (Cymru)
Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor

Ionawr 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gyloch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddiaeth a pholisi sy'n cynnwys: cynnal a datblygu amgylchedd ac adnoddau ynni naturiol Cymru a chynllunio ar ei gyfer.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Alun Ffred Jones (Cadeirydd)
Plaid Cymru
Arfon



Mick Antoniw
Llafur Cymru
Pontypridd



Jeff Cuthbert
Llafur Cymru
Caerffili



Russell George
Ceidwadwyr Cymreig
Sir Drefaldwyn



Llyr Gruffydd
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



Julie Morgan
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



William Powell
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Jenny Rathbone
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



Antoinette Sandbach
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



Joyce Watson
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynnwys

Argymhellion	7
Rhagymadrodd	13
Telerau'r gwaith craffu	13
Ymagwedd y Pwyllgor	14
1. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth	15
1.1 Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i wneud y Bil	15
1.2 Yr egwyddorion cyffredinol a'r ymagwedd at ddeddfu	15
1.3 Cymhlethdod ac ymagwedd 'o'r brig i lawr'	16
Ein barn ni	18
1.4 Costau a manteision	20
Ein barn ni	21
1.5 Diben Statudol ar gyfer Cynllunio	21
Ein barn ni	23
1.6 Y Gymraeg	24
Ein barn ni	26
1.7 Cysylltiadau â chyfundrefnau cynllunio eraill sy'n bodoli neu sydd yn yr arfaeth	28
Ein barn ni	29
1.8 Parciau Cenedlaethol	31
Ein barn ni	32
1.9 Aseidiadau o'r Effaith ar Iechyd	33
Ein barn ni	33
1.10 Yr Arolygiaeth Gynllunio	34
2. Rhan 2 – Cynllunio Datblygu: y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol	35
2.1 Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (adran 2)	35
Statws Cynlluniau Datblygu a threfniadau gwaith craffu	35
Ein barn ni	37

Materion eraill ynglŷn â'r FfDC	39
Ein barn ni	40
2.2 Cynlluniau Datblygu Strategol (adrannau 3-9)	40
Yr angen am CDSau.....	40
Dynodi Ardal Cynllunio Strategol	41
Cynllunio strategol mewn ardaloedd heb CDS	41
Paneli Cynllunio Strategol	42
Cysylltiadau â chynlluniau trafndiaeth.....	43
Ein barn ni	44
3. Ymgynghori cyn ymgeisio.....	46
3.1 Taliadau am ymgynghori cyn ymgeisio.....	46
3.2 Costau sy'n gysylltiedig ag ymgynghori cyn ymgeisio	47
3.3 Trothwyon.....	48
3.4 Diffinio ymgynghoreion statudol	49
Ein barn ni	49
4. Rhan 4 – Pwerau Gweinidogion Cymru i Wneud Penderfyniadau	51
4.1 Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DACau) (adrannau 17-19, 24).....	51
Diffinio DAC.....	51
Caniatâd cynllunio v cydsyniad datblygu	51
Ein barn ni	53
4.2 Amserlenni a dyddiadau cau statudol.....	55
Ein barn ni	56
5. Rhan 5: Rheoli Datblygu	57
5.1 Pwyllgorau Cynllunio, rôl Aelodau a dirprwyo (adran 37)	57
Ein barn ni	60
5.2 Amrywio cais ar ôl hysbysiad am apêl (adrannau 42, 45)	62
Ein barn ni	63
5.3 Dyfarnu costau i Weinidogion Cymru (adran 44).....	63
Ein barn ni	64

5.4 Y gweithdrefnau ar gyfer apelau, galw i mewn a cheisiadau uniongyrchol (adran 45)	64
Ein barn ni	65
6. Datganiad Dylunio a Mynediad	67
Ein barn ni	68
7. Meysydd Tref a Phentref.....	70
Ein barn ni	71
Atodiad 1: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig.....	73
Atodiad 2: Tystion.....	76

Argymhellion

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell y dylai'r Cynulliad gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil hwn. (Tudalen 19)

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i roi statws cynllun datblygu ffurfiol i Gynlluniau Lleoedd o dan adran 38 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ac y dylai roi rhagor o ystyriaeth i sut y gall cymunedau lleol gael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan wrth baratoi pob cynllun datblygu. (Tudalen 19)

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog osod Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig gerbron y Cynulliad cyn y ddadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil. (Tudalen 21)

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil er mwyn cynnwys diben statudol ar gyfer cynllunio ynddo. Dylai'r diben gael ei ddrafftio ar linellau tebyg i'r diben statudol a argymhellir gan y Grŵp Cynghori Annibynnol yn eu hadroddiad. (Tudalen 23)

Argymhelliad 5. Rydym hefyd yn argymell y dylai'r Bil gael ei ddiwygio i gynnwys darpariaeth a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol ar sut i gymhwyso'r diben statudol. (Tudalen 24)

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'w gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n paratoi cynlluniau gynnal asesiad o effaith cynlluniau datblygu ar y Gymraeg wrth iddyn nhw baratoi Cynlluniau Datblyu Lleol, Cynlluniau Datblygu Strategol a'r Fframwaith Datblyu Ceneldaethol. O ran Cynlluniau Lleoedd, dylai asesiad iaith fod yn rhan o arfarniad cynaliadwyedd cyffredinol. (Tudalen 27)

Argymhelliad 7. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 70 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, i'w gwneud yn glir i bawb sy'n ymwneud â chynllunio y caiff penderfynwyr roi sylw i'r effaith ar y Gymraeg i'r graddau y bydd yn berthnasol i gais. Dylai unrhyw welliant roi eglurhad ac nid newid y sefyllfa o ran pwysau. (Tudalen 27)

Argymhelliad 8. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gofyniad bod rhaid cynnal Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg yn achos ceisiadau cynllunio sylweddol penodol. (Tudalen 27)

Argymhelliad 9. Rydym yn argymell y dylid rhoi rôl ffurfiol i Gomisiynydd y Gymraeg wrth asesu ansawdd asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg, a hynny ar gyfer cynlluniau datblygu a cheisiadau cynllunio sylweddol penodol, er mwyn sicrhau cysondeb. Wrth wneud yr argymhelliad hwn, hoffem fod yn glir ein bod yn galw am rôl i Gomisiynydd y Gymraeg wrth asesu ansawdd asesiadau effaith iaith ac nid rôl yn y broses o ymdrin â cheisiadau cynllunio.

(Tudalen 27)

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi esboniad eglur o sut y bydd y polisi cenedlaethol arfaethedig ar adnoddau naturiol a chynlluniau adnoddau naturiol sydd wedi'u seilio ar ardaloedd yn cydberthyn i'r gyfundrefn gynllunio cyn i Fil yr Amgylchedd gael ei gyflwyno.

(Tudalen 29)

Argymhelliad 11. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i sicrhau bod y cynlluniau morol a chynlluniau'r tir yn cydfynd yn agos â'i gilydd a'i bod yn ofynnol i'r rhai sy'n gwneud cynlluniau (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) roi sylw priodol i'r gydberthynas rhwng y ddau amgylchedd hyn.

(Tudalen 30)

Argymhelliad 12. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i gysylltu trefniadau'r cynlluniau trafndiaeth statudol cenedlaethol a rhanbarthol â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol.

(Tudalen 30)

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i'w gysylltu â Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dylai'r gwelliannau hyn gynnwys cysylltiad ffurfiol rhwng y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r nodau llesiant.

(Tudalen 30)

Argymhelliad 14. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gadarnhau y bydd y rheoliadau ynglŷn â Chynlluniau Datblygu Strategol yn cynnwys gofyniad bod rhaid i'r cynlluniau hynny roi sylw i'r Cynlluniau Llesiant Lleol perthnasol.

(Tudalen 30)

Argymhelliad 15. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog adael y Bil fel y mae wedi'i ddrafftio o ran y Parciau Cenedlaethol ac y dylai ailystyried ei fwriad i gyflwyno gwelliannau i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru i greu Byrddau Cydgynllunio a allai gynnwys rhan neu'r cyfan o Barc Cenedlaethol yn y dyfodol.

(Tudalen 32)

Argymhelliad 16. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ystyried a ddylid cynnwys gofyniad yn y Bil bod rhaid cynnal Aseidiadau o'r Effaith ar Iechyd adeg y cynllun datblygu ac yn achos rhai mathau o gais cynllunio. Dylai polisïau a chanllawiau perthynol gael eu diwygio hefyd er mwyn sicrhau bod effeithiau datblygiadau ar iechyd yn cael eu hystyried mewn modd priodol.

(Tudalen 33)

Argymhelliad 17. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i bennu hyd y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft ar wyneb y Bil. Rydym yn argymell y dylai'r cyfnod hwnnw fod yn hirach na 12 wythnos.

(Tudalen 37)

Argymhelliad 18. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i alluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i benderfynu ar ei weithdrefn ei hun ynglŷn ag ystyried y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft ac, fel rhan o'r gwelliannau hyn, y dylai'r Gweinidog ddileu unrhyw gyfyngiad ar ystyriaethau'r Cynulliad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, yn enwedig y cyfnod ystyried o 60 diwrnod a bennir yn adran 2 o'r Bil.

(Tudalen 38)

Argymhelliad 19. Rydym yn argymell bod rhaid i'r Gweinidog ddiwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad.

(Tudalen 38)

Argymhelliad 20. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i bennu dros ba gyfnod y mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i fod yn effeithiol.

(Tudalen 40)

Argymhelliad 21. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i ddileu hawliau pleidleisio aelodau anetholedig o Banelli Cynllunio Strategol.

(Tudalen 45)

Argymhelliad 22. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn gwella'r trefniadau cyn ymgeisio sy'n gymwys i geisiadau am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac amlinellu'r trefniadau hyn yr wyneb y Bil.

(Tudalen 50)

Argymhelliad 23. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn trefnu bod y rheoliadau a fydd yn nodi pa gategorïau o ddatblygiad a ddylai ddod o dan y weithdrefn cyn ymgeisio yn cael eu hystyried o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. (Tudalen 50)

Argymhelliad 24. Yn amodol ar unrhyw faterion ynglŷn â chymhwysedd deddfwriaethol, rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ystyried gwneud ymgwymerwyd dŵr yn ymgygoreion statudol. Gofynnwn i'r Gweinidog adrodd yn ôl inni ar ei ystyriaethau ar y mater hwn erbyn diwedd mis Mawrth 2015. (Tudalen 50)

Argymhelliad 25. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ddiwygio'r Bil i gynnwys diffiniad o Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol ar wyneb y Bil, gyda darpariaeth a fyddai'n caniatáu i'r diffiniad hwnnw gael ei ddiwygio o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. (Tudalen 53)

Argymhelliad 26. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog nodi sut mae'n bwriadu penderfynu ar gynlluniau ynni uwchlaw 50MW yng Nghymru os ceir rhagor o ddatganoli. Wrth iddo fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, rydym yn gofyn i'r Gweinidog fod yn eglur a fydd proses y Gorchymyn Caniatâd Datblygu NSIPS yn cael ei dyblygu yng Nghymru; a fydd y cynlluniau ehangach hyn yn cael eu cynnwys ym mhroses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol; neu a fydd rhyw broses arall yn gymwys. (Tudalen 53)

Argymhelliad 27. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gymryd camau i'w gwneud yn glir y gallai adran 18 o'r Bil gael ei defnyddio i roi pŵer i Weinidogion Cymru i benderfynu ar ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn ogystal â chydysyniadau eilaidd/atodol. (Tudalen 54)

Argymhelliad 28. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn cynnwys rhestr o'r cydsyniadau eilaidd a allai gael eu penderfynu'n uniongyrchol gan Weinidogion Cymru wrth ochr cais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol ar wyneb y Bil, gyda phŵer i ddiwygio'r rhestr drwy benderfyniad cadarnhaol. Os nad yw'r Gweinidog yn awyddus i wneud gwelliant o'r fath, rydym yn credu y dylai gyflwyno gwelliannau i sicrhau y dylai unrhyw orchymyn a wneir er mwyn diffinio'r mathau hyn o gydsyniad ddod o dan y weithdrefn gadarnhaol. (Tudalen 54)

Argymhelliad 29. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog egluro a yw'n bwriadu cymryd cyfrifoldeb dros roi trwyddedau amgylcheddol ar gyfer ceisiadau penodol am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac, os ydy, y dylai gyflwyno gwelliannau i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i gydsyniad Cyfoeth Naturiol Cymru gael ei roi cyn y caiff Gweinidogion Cymru wneud penderfyniad ynghylch rhoi trwyddedau amgylcheddol ochr yn ochr â phroses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. (Tudalen 54)

Argymhelliad 30. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn sefydlu amserlen hiraf statudol i Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a chydysniadau eilaidd cysylltiedig gael eu penderfynu gan Weinidogion Cymru ar ôl i gais o'r fath gael ei gyflwyno'n ffurfiol. Mewn achosion lle na chedwir at yr amserlen, dylai'r gwelliannau hyn gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru i esbonio'r rhesymau dros fynd y tu hwnt i'r amserlen. (Tudalen 56)

Argymhelliad 31. Rydym yn argymell y dylai'r rheoliadau ar gyfer cynllun dirprwyo cenedlaethol, pan gyflwynir nhw, ddilyn y model a gynigwyd gan ymchwil Llywodraeth Cymru ei hun - hynny yw, cynllun cenedlaethol ac iddo rywfaint o hyblygrwydd lleol, a phob cynllun lleol i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru o hyd. (Tudalen 60)

Argymhelliad 32. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ddiwygio Memorandwm Esboniadol y Bil er mwyn esbonio'n glir y mathau o benderfyniadau sydd i'w dirprwyo i swyddogion yn defnyddio'r pwerau yn Adran 37 o'r Bil. (Tudalen 61)

Argymhelliad 33. Rydym yn argymell y dylai'r rheoliadau ynglŷn â chynllun dirprwyo cenedlaethol, pan gyflwynir nhw, ei gwneud yn ofynnol i gais cynllunio gael ei gyfeirio at bwylgor pan fydd cyngor tref neu gymuned lleol yn gwrthwynebu cais. (Tudalen 61)

Argymhelliad 34. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 37 o'r Bil i sicrhau bod y rheoliadau o dan adran 3197B o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi gofynion ynglŷn â maint a chyfansoddiad pwyllgorau cynllunio yn dod o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. (Tudalen 61)

Argymhelliad 35. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i beri bod y protocol ynglŷn â phwyllgorau cynllunio'n un statudol. (Tudalen 61)

Argymhelliad 36. Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 42 o'r Bil i adlewyrchu cynnig Cymdeithas y Cyfreithwyr, ond dylai hyn gynnwys gofyniad bod rhaid i gais diwygiedig gael ei ddychwelyd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol at ddibenion ymgynghori eto. (Tudalen 63)

Argymhelliad 37. Rydym yn argymell y dylai Cylchlythyr 23/93 ‘Dyfarnu costau mewn trafodion cynllunio a thrafodion eraill (gan gynnwys Gorchymyn Prynu Gorfodol)’ gael ei ddiweddarau cyn i adran 44 gychwyn i adlewyrchu’r newidiadau sydd wedi’u gwneud gan y Bil hwn ym mhroses adennill costau mewn apelau. (Tudalen 64)

Argymhelliad 38. Rydym yn argymell y dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 45 o’r Bil er mwyn gosod terfynau amser gofynnol ar gyfer ymateb i geisiadau am wybodaeth yn sgil apelau, galw ceisiadau i mewn a cheisiadau uniongyrchol. (Tudalen 66)

Argymhelliad 39. Rydym yn argymell y dylai’r Gweinidog gadw’r gofyniad yn y ddeddfwriaeth sylfaenol ynghylch Datganiadau Dylunio a Mynediad drwy ddileu adran 27 ac y dylai’r is-ddeddfwriaeth gysylltiedig gael ei diwygio fel mai ar gyfer y datblygiadau mwyaf ac adeiladau rhestredig yn unig y dylai fod yn ofynnol paratoi datganiadau. (Tudalen 69)

Argymhelliad 40. Rydym yn argymell y dylai’r Gweinidog gyflwyno’r gwelliannau i Atodlen 6 (Meysydd tref a phentref: Atodlen 1B newydd i Ddeddf Tir Comin 2006) o’r Bil er mwyn dileu digwyddiadau sbarduno, yn unol â’r amlinelliad yn ei lythyr at y Cadeirydd ar 7 Ionawr 2015 a hynny ar y cyfle cyntaf. (Tudalen 72)

Argymhelliad 41. Rydym yn argymell y dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i’r Bil i ddileu adran 47 sef darpariaethau a fyddai’n lleihau’r cyfnod amser ar gyfer cyflwyno cais am Faes Tref neu Bentref o ddwy flynedd i un. (Tudalen 72)

Argymhelliad 42. Rydym yn argymell y dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i ddileu adran 50 o’r Bil, sef darpariaethau a fyddai’n caniatáu i Weinidogion Cymru bennu ffioedd am geisiadau i ddiwygio cofrestrau tir comi a meysydd tref neu bentref. (Tudalen 72)

Rhagymadrodd

1. Ar 6 Hydref 2014, cyflwynodd Carl Sargeant AC, y Gweinidog Adnoddau Naturiol (“y Gweinidog”) Fil Cynllunio (Cymru) (“y Bil”) a Memorandwm Esboniadol perthynol a gwnaeth ddatganiad ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn ar 7 Hydref 2014.
2. Yn ei gyfarfod ar 7 Hydref 2014, cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad y dylai'r Bil gael ei gyfeirio at y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9.

Telerau'r gwaith craffu

3. Cytunwyd ar y fframwaith a ganlyn ar gyfer craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil:

Ystyried—

- egwyddorion cyffredinol y Bil Cynllunio (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth yn y meysydd a ganlyn:
 - y gofyniad i greu cynllun defnydd tir cenedlaethol, a elwir yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol;
 - creu Cynlluniau Datblygu Strategol i fynd i'r afael â materion trawsffiniol sy'n fwy na rhai lleol;
 - newidiadau i weithdrefnau Cynlluniau Datblygu Lleol;
 - ychwanegu at y gwaith ar ddechrau'r broses rheoli datblygu drwy wneud darpariaeth ar gyfer gwasanaethau cyn ymgeisio;
 - cyflwyno categori newydd o ddatblygiad, sef Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, sydd i'w penderfynu gan Weinidogion Cymru;
 - symleiddio'r system rheoli datblygu;
 - newidiadau i weithdrefnau gorfodi ac apelio; a
 - newidiadau mewn perthynas â cheisiadau i gofrestru meysydd tref neu bentref.
- unrhyw rwystrau posibl rhag rhoi'r darpariaethau hyn ar waith, ac a yw'r Bil yn eu hystyried;

- gwaith craffu cyn-deddfu y Pwyllgor ar y Bil Cynllunio (Cymru) Drafft ac i ba raddau y mae'r Bil diwygiedig yn ystyried argymhellion y Pwyllgor;
- a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;
- goblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol, sef yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n amcangyfrif y costau a'r buddion o roi'r Bil ar waith);
- priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol, sy'n cynnwys tabl sy'n rhoi crynodeb o bwerau Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth);
- mesuradwyedd canlyniadau'r Bil; hynny yw, pa drefniadau sydd ar waith i fesur a dangos sut y caiff canlyniadau arfaethedig Llywodraeth Cymru eu cyflawni o ganlyniad i'r gyfraith hon.

Ymagwedd y Pwyllgor

4. Cyhoeddodd y Pwyllgor ymgynghoriad gan wahodd rhanddeiliaid allweddol i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i fwydo'n gwaith. Ceir rhestr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn Atodiad 1.
5. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan nifer o dystion. Mae'r rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar i'w gweld yn Atodiad 2.
6. Yn yr adroddiad a ganlyn ceir y casgliadau y daethom iddynt a'n hargymhellion ni, sydd wedi'u seilio ar y dystiolaeth a gafwyd yn ystod ein gwaith.
7. Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ein gwaith.

1. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

1.1 Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i wneud y Bil

8. Mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol dros lawer agwedd ar gynllunio, ond nid y cyfan. Mae Atodlen 7, Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhestru'r pynciau sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn nodi'r pynciau a ganlyn yn Atodlen 7 sy'n berthnasol i'r Bil:

Cynllunio Gwlad a Thref

18. Cynllunio gwlad a thref [...] Cynllunio gofodol. [...] Datblygu trefol.

Llywodraeth Leol

12. Cyfansoddiad, strwythur ac ardaloedd awdurdodau lleol. [...] Pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol a'u haelodau a'u swyddogion.

Yr Amgylchedd

6. [...] Meysydd tref neu bentref;

Gweinyddiaeth Gyhoeddus

14. Ymchwiliadau o ran materion y mae Gweinidogion Cymru yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â hwy”.

9. Cyhoeddodd y Llywydd ddatganiad ar 6 Hydref 2014, a oedd yn dweud y byddai'r Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

1.2 Yr egwyddorion cyffredinol a'r ymagwedd at ddeddfu

10. Y bwriad polisi sydd wedi'i ddatgan ynglŷn â'r Bil yw creu system gynllunio fwy cyson a honno'n galluogi datblygiadau ac yn gwella'r amgylchedd adeiledig a'r amgylchedd naturiol. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi pum amcan allweddol i'r Bil:

- fframwaith mwy modern ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio - o dan y Bil, bydd modd gwneud ceisiadau cynllunio'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru o dan amgylchiadau penodol

- atgyfnerthu'r dull gweithredu seiliedig ar gynllun - bydd y Bil yn cyflwyno sail gyfreithiol dros baratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol
- gwella cyd-nerthu - bydd y Bil yn caniatáu i Weinidogion orchymyn i awdurdodau cynllunio lleol weithio gyda'i gilydd a bod awdurdodau cynllunio lleol yn cael eu huno
- rhoi mwy o bwyslais ar brosesau cychwynnol y system rheoli datblygu a'i gwella - bydd y Bil yn cyflwyno gweithdrefn cyn ymgeisio statudol ar gyfer categorïau penodol o geisiadau cynllunio; a
- galluogi gweithdrefnau gorfodi ac apelio effeithiol - bydd y Bil yn gwneud newidiadau i weithdrefnau gorfodi er mwyn sicrhau bod camau uniongyrchol ac ystyrlon yn cael eu cymryd pan fydd rheolaethau cynllunio'n cael eu torri ac er mwyn gwneud y system apelio yn fwy tryloyw ac effeithlon.

1.3 Cymhlethdod ac ymagwedd 'o'r brig i lawr'

11. Mae rhai tystion a rhai o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw wedi dadlau bod y trefniadau newydd ynglŷn â chynlluniau datblygu yn ddiangen o gymhleth ac y byddan nhw, i bob pwrpas, yn creu strwythur o gynlluniau datblygu ar bedair haen (gan gynnwys y Cynlluniau Lleoedd anstatudol, er na fydd y rheiny'n gynlluniau datblygu ffurfiol) mewn rhannau o Gymru. Maen nhw'n awgrymu bod hyn yn creu strwythur cymhleth yn fan cychwyn ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Mae pryderon wedi'u mynegi hefyd fod y strwythur newydd yn gweithio 'o'r brig i lawr yn ormodol, gan ddibynnu'n fawr ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ('yr FfDC') ac y bydd yn rhoi pwerau ychwanegol sylweddol i Weinidogion Cymru.

12. Dywedodd Cyfeillion y Ddaear wrth y Pwyllgor:

“The Bill seems to me to be like a planning person has gone into the sweetshop for planners and said, ‘I’ll have one of everything, please, and just put them all in the Bill just in case I need them’ so that they can get them out when they want to.”¹

13. Dywedodd y Cyngorydd John Williams o Gyngor Gwynedd fod angen i'r Bil daro cydbwysedd rhwng cysondeb yn y penderfyniadau ar gynllunio ledled Cymru a chadw democratiaeth leol.²

¹ Cofnod y Trafodion 11 Rhagfyr 2014 c.379

² Cofnod y Trafodion 27 Tachwedd 2014 c.400

14. Roedd rhai tystion yn credu y byddai'r newidiadau yn ei gwneud yn fwy anodd byth sicrhau bod cymunedau'n cael eu cynnwys yn y system o wneud cynlluniau. Dywedodd Cymorth Cynllunio Cymru wrthon ni y dylai'r Bil gael ei weld fel cyfle "to look structurally at the relationship between the land use planning system and communities in Wales" a hefyd:

"[...] there is work to be done to sufficiently define the new shape of the planning system and the opportunities that communities will have to engage at different levels in the hierarchy of the planning system."³

15. Yn ei llythyr ar 7 Ionawr, cynigiodd y Gweinidog ragor o sylwadau ar rôl Cynghorau Tref a Chymuned yn y system gynllunio ddiwygiedig.⁴

16. Cadarnhaodd Prif Gynllunydd y Gweinidog y byddai Cynlluniau Lleoedd yn cael eu cyflwyno fel canllawiau cynllunio atodol anstatudol, yn hytrach nag fel rhan ffurfiol o hierarchaeth y cynlluniau datblygu.⁵

17. Pe bai yna lai o awdurdodau cynllunio lleol ("ACLLau") yn y dyfodol yn cynhyrchu Cynlluniau Datblygu Lleol ("CDLlau"), yn ogystal â mathau newydd o gynlluniau datblygu, Cynlluniau Datblygu Strategol ("CDSau") a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ("FfDC"), mae Un Llais Cymru'n poeni y byddai cymunedau lleol yn bellach byth o'r broses o wneud cynlluniau. Hoffai weld Cynlluniau Lleoedd yn 'floc adeiladu' sylfaenol mwy ffurfiol i'r system o gynlluniau datblygu, gan gydnabod hefyd y broblem mai rhannau yn unig o Gymru sydd â Chynghorau Tref a Chymuned.⁶

18. Er bod yr FfDC a'r CDSau am gael eu cyflwyno, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai'r broses o benderfynu ar y mwyafrif o geisiadau cynllunio yn dal i ddigwydd ar y lefel leol. Er hynny, mae'n wir hefyd y bydd penderfyniadau ar geisiadau cynllunio'n dal i gael eu gwneud yn unol â'r cynllun datblygu (a fydd erbyn hyn yn cynnwys yr FfDC a'r CDS lle bon berthnasol), oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn dynodi fel arall. Mae llythyr y Gweinidog at y Cadeirydd ar 10 Rhagfyr yn cadarnhau mai'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd yn fwyaf diweddar (boed yr FfDC ynteu CDS) fydd yn cael y flaenoriaeth os nad yw'r cynlluniau'n cydymffurfio â'i gilydd.⁷

³ Cofnod y Trafodion 11 Rhagfyr 2014 c.420

⁴ Llythyr gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, 7 Ionawr 2014

⁵ Cofnod y Trafodion 27 Tachwedd 2014 c.261

⁶ Ibid c.577

⁷ Llythyr gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, 10 Rhagfyr 2014

19. Mae yna bryderon hefyd ynghylch y goblygiadau ynglŷn ag amser ac adnoddau sy'n codi o gynhyrchu haenau newydd o gynlluniau ac o adolygu'r cynlluniau presennol wedyn i sicrhau eu bod i gyd yn cydymffurfio â'i gilydd. Mae llythyr y Gweinidog at y Cadeirydd ar 10 Rhagfyr yn esbonio y bydd rhaid i ACLlau ystyried yr FfDC ar ôl i hwnnw gael ei fabwysiadu, p'un a oes angen i'r CDLI y maen nhw wedi'i fabwysiadu gael ei ddiwygio neu beidio. Hefyd, ar ôl i CDLlau gael eu mabwysiadu, bydd angen eu hadolygu cyn gynted â phosibl ar ôl i Gynllun Datblygu Strategol (CDS) gael ei fabwysiadu.⁸

20. Pan ymddangosodd y Gweinidog gerbron y Pwyllgor ar 14 Ionawr 2015, gwrthododd yr awgrym bod y Bil yn ychwanegu cymhlethdod ac awgrymodd yn hytrach fod y pryderon a oedd wedi'u mynegi gan y rhanddeiliaid yn deillio o bryder a oedd wedi'i achosi am fod yna newid yn yr arfaeth:

"I think that what organisations are, perhaps, concerned about is understanding different things. Change is always a challenge for organisations to move forward through [...]"⁹

Ein barn ni

21. Rydym wedi galw cyn hyn am ddiwygio system gynllunio Cymru ac rydym yn gwybod bod angen gwelliannau ym mherfformiad y system gynllunio er mwyn i ystod eang o amcanion polisi gael eu cyflawni; gan gynnwys mesurau i fynd i'r afael â her y newid yn yr hinsawdd.

22. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r galwadau hyn ac wedi cyflwyno Bil Cynllunio (Cymru) yn elfen ganolog yn ei hymateb, er bod amryw o gamau eraill yn cael eu cymryd ochr yn ochr â hyn gan gynnwys diwygio is-ddeddfwriaeth a chanllawiau.

23. Mae gan y Llywodraeth ein cefnogaeth fras i'w hymgais i wella effeithlonrwydd y system, ond rhaid inni leddfu'r gefnogaeth hon â phryderon ynglŷn ag agweddau ar ei dulliau. O ran y Bil, rydym yn pryderu bod rhai o'r darpariaethau'n rhoi pwerau bras i Lywodraeth Cymru heb ddigon o ddulliau diogelu yn eu cylch, yn dod â rhagor o gymhlethdod i'r system gynllunio, ac o bosibl yn ei gwneud yn broses lai democrataidd.

24. Pwysig hefyd yw cydnabod bod y Bil hwn, o ddarn o ddeddfwriaeth, yn mynd ati'n bennaf i sefydlu fframwaith newydd ar gyfer cynllunio yng

⁸ Llythyr gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, 10 Rhagfyr 2014

⁹ Cofnod y Trafodion 14 Ionawr 2015 c.11

Nghymru. Mae'n hynod dawel ynglŷn â manylion y diwygiadau sydd i'w gwneud, gan adael y rhain ar gyfer polisi, canllawiau ac is-ddeddfwriaeth yn bennaf. Mae hyn yn cynnwys rhoi 65 o bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru.

25. Ochr yn ochr â'r newidiadau hyn mewn deddfwriaeth ac mewn strwythurau, bydd angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau i newid diwylliant byd cynllunio yng Nghymru, sef tasg a allai fod yn fwy o her na newid y gyfraith.

26. Un o'n prif bryderon yw bod y darpariaethau yn y Bil hwn yn symud pŵer oddi wrth y cymunedau a'r unigolion y mae datblygiadau'n effeithio arnyn nhw. Rydym yn derbyn nad dyna fwriad y Llywodraeth o bosibl, ond fe allai canoli pwerau a diwygio prosesau arwain yn fwyfwy at erydu democratiaeth leol.

27. Gallai cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynlluniau Lleoedd wneud rhywfaint i fynd i'r afael â hyn. O'i ddiwygio, rydym yn credu bod y Bil yn cynnig cyfle i gryfhau lleisiau lleol.

28. I fynd i'r afael â'n pryderon bod y system yn un gymhleth, rydym yn cytuno a'r Gweinidog y byddai'n fanteisiol sicrhau bil cydgrynhoi ar adeg addas yn y dyfodol i ddisodli'r deddfau cynllunio mwyfwy cymhleth ar gyfer Cymru a Lloegr. Gallai hynny wella tryloywder a hygyrchedd system gynllunio Cymru. Rydym yn ymwybodol o waith Comisiwn y Gyfraith yn hyn o beth ac yn edrych ymlaen at ystyried eu casgliadau maes o law.

29. Rydym yn sylweddoli bod Llywodraeth Cymru wedi darparu gwybodaeth ychwanegol am sut y mae'n bwriadu defnyddio rhai o'r pwerau a gaiff drwy'r Bil, a hynny drwy gyfrwng nifer o ymgynghoriadau a thrwy gyhoeddi Datganiadau o Fwriad Polisi. Er hynny, mae amseriad yr ymgynghoriadau hyn yn ei gwneud yn anodd inni bwysu a mesur eu goblygiadau yn yr adroddiad hwn.

30. Er gwaethaf ein pryderon, yr ydym yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn credu eu bod yn feysydd a allai gael eu diwygio, rydym yn fodlon argymell y dylai'r Cynulliad gytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil.

Rydym yn argymell y dylai'r Cynulliad gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil hwn.

Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i roi statws cynllun datblygu ffurfiol i Gynlluniau Lleoedd o dan adran 38 o

Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ac y dylai roi rhagor o ystyriaeth i sut y gall cymunedau lleol gael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan wrth baratoi pob cynllun datblygu.

1.4 Costau a manteision

31. Rydym wedi cael tystiolaeth sy'n codi cwestiynau ynghylch costau a manteision y Bil fel y maen nhw wedi'u nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ('yr RIA'). Mae'r prif faterion yn ymwneud â'r canlynol:

- y costau sy'n gysylltiedig â gofynion newydd megis ymgynghori cyn ymgeisio, i ddatblygwyr, ACLlau ac ymgynghoreion statudol;
- costau cynhyrchu mathau newydd o gynllun datblygu (yr FfDC a CDSau) ac adolygu'r cynlluniau presennol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'i gilydd, o gofio'r cyfyngiadau ar wariant cyhoeddus;
- manteision hirdymor na fyddan nhw o bosibl yn cael eu sicrhau heb fuddsoddiadau byrdymor i roi'r newidiadau angenrheidiol ar waith;
- y diffyg blaenoriaeth sy'n cael ei rhoi i gynllunio a'r ffaith bod cynllunio'n cael ei weld fel gwasanaeth 'Sinderela' yn yr awdurdodau lleol;
- colli cynllunwyr medrus yr awdurdodau lleol sy'n gallu gwneud gwaith 'cynllunio strategol';
- y goblygiadau o ran adnoddau i Lywodraeth Cymru yn sgil cynhyrchu FfDC a gwneud penderfyniadau ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ("DACau") o gofio'r gostyngiadau yn y gyllideb ar gyfer gwaith cynllunio.

32. Yn ei dogfen naratif ar Gyllideb Ddrafft 2015-16, dywedodd Llywodraeth Cymru:

"Rydym am barhau i fuddsoddi mwy na £6m yn 2015-16 i gefnogi system gynllunio gadarn ac effeithlon yng Nghymru."¹⁰

33. Bydd holl gostau Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r Bil hwn yn cael eu talu o'r maes rhaglen gwariant Cynllunio a Rheoleiddio yn y portffolio Adnoddau Naturiol. Mae'r dyraniadau adnoddau ar gyfer Adnoddau Naturiol yn dangos y rhagwelir gostyngiad yn y gyllideb Cynllunio o 5.7%, sef o ddyraniad o £6.8 miliwn yng nghyllideb atodol Mehefin 2014 i £6.4 miliwn yng Nghyllideb Ddrafft 2015-16.

¹⁰ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16: Blaenoriaethau i Gymru, Medi 2014 p.72

34. Gofynasom i'r Gweinidog am y pryderon hyn yn ein cyfarfod ar 14 Ionawr 2015.¹¹ Mewn ymateb, cydnabu'r Gweinidog yr her sy'n codi yn sgil gostyngiadau mewn cyllidebau, ond roedd yn benderfynol na fyddai hynny'n atal y Llywodraeth rhag gwireddu ei hamcanion.

"I'm confident we can do this. I'm confident, with the budget mechanisms we have in place, we will be able to deliver."¹²

35. Cydnabu'r Gweinidog hefyd fod angen gosod RIA diwygiedig gerbron y Cynulliad.

Ein barn ni

36. Rydyn yn bryderus nad yw agweddau ar yr RIA wedi rhoi amcangyfrif cywir o wir gostau'r newidiadau y bydd y ddeddfwriaeth hon yn eu creu ac yn gobeithio y bydd yr RIA diwygiedig yn mynd i'r afael â'r pryderon sydd wedi'u codi gan y rhanddeiliaid.

37. Byddwn yn parhau i fonitro goblygiadau ariannol y Bil hwn drwy'n sesiwn rheolaidd o waith craffu ariannol a'n hystyriaeth flynyddol ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog osod Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig gerbron y Cynulliad cyn y ddadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

1.5 Diben Statudol ar gyfer Cynllunio

38. Argymhellodd adroddiad y Grŵp Cynghori Annibynnol ("yr IAG") ddiben statudol ar gyfer cynllunio ar wyneb y Bil¹³ ac ategodd y Pwyllgor yr argymhelliad hwnnw ar ôl inni wneud ein gwaith craffu cyn y broses deddfu ar y Bil drafft.¹⁴

39. O ran y diben statudol, argymhellodd y Grŵp hyn:

"The purpose of the town and country planning system is the regulation and management of the development and use of land in a

¹¹ Cofnod y Trafodion 14 Ionawr 2014

¹² Cofnod y Trafodion 14 Ionawr 2015 c.36

¹³ Grŵp Cynghori Annibynnol, *Tuag at Ddeddf Cynllunio i Gymru: Sicrhau system gynllunio effeithiol*, Mehefin 2012 p.13

¹⁴ Llythyr Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd at y Gweinidog Tai ac Adfywio, 10 Ebrill 2014

way that contributes to the achievement of sustainable development.”¹⁵

40. Argymhellodd y Grŵp hefyd y dylai'r Bil gynnwys darpariaeth a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru roi canllawiau i'r ACLlau ar sut i roi'r diben ar waith.¹⁶

41. Mae nifer o ymatebwyr hefyd wedi galw am ddiben statudol (gan gynnwys Cyswllt Amgylchedd Cymru, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, amryw o arweinwyr awdurdodau lleol, Cyfeillion y Ddaear Cymru, RSPB). Dadleuir y byddai cynnwys y diben hwn yn sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw'r egwyddor ganolog ym mhob penderfyniad cynllunio, yn enwedig lle gallai'r cynlluniau datblygu fod yn eisiau neu'n gwrthdaro â'i gilydd.

42. Mae yna ofyniad statudol eisoes i'r ACLlau baratoi eu cynlluniau datblygu yn unol â'r amcan o gyfrannu at wireddu datblygu cynaliadwy, o dan adran 39 o *Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004* (DCPhG 2004).¹⁷ Er hynny, nid yw'r gofyniad hwn yn cynnwys ochr y system gynllunio sy'n ymwneud â rheoli datblygu.

43. Yn eu tystiolaeth lafar nhw, awgrymodd yr RTPI y gellid gosod diben statudol ar wyneb y Bil, ond y gellid diffinio hynny ym Mholisi Cynllunio Cymru er mwyn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd i ddiwygio'r diffiniad.¹⁸

44. Yn y sesiwn dystiolaeth ar 27 Tachwedd, dywedodd y Gweinidog y byddai “planning sustainable development duty” yn rhan o Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac nad oedd yn credu bod angen ailadrodd hyn yn y Bil Cynllunio. Mae hyn yn cyfeirio at ddyletswydd gyffredinol yn hytrach na dyletswydd ym maes cynllunio yn benodol.¹⁹

45. Gwnaeth Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig (“yr UKELA”) y pwynt a ganlyn inni:

“[...] there is a fundamental distinction between planning for future generations—or, as we might say, sustainable development—and the idea of positive land use planning. I think that there is quite a distinction there. We are not entirely sure what ‘positive land use

¹⁵ Y Grŵp Cyngori Annibynnol, *Tuag at Ddeddf Cynllunio i Gymru: Sicrhau system gynllunio effeithiol*, Mehefin 2012 p.13

¹⁶ Ibid

¹⁷ Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 p.5

¹⁸ Cofnod y Trafodion 3 Rhagfyr 2014 c.229

¹⁹ Cofnod y Trafodion 27 Tachwedd 2014 c.240

planning’ means. We would have preferred to have seen, at the very start of the Bill, a statutory purpose for planning in terms of future generations’ wellbeing.”²⁰

46. Nododd Cymdeithas y Cyfreithwyr fod y syniad o ddiben statudol fel y’i hargymhellwyd gan yr IAG yn “useful fall-back, so that, if you do not have any development plan assistance, or you have an out-of-date provision, you have this underlying, overarching purpose to the system, which is to achieve sustainable land use”.²¹

47. Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg wedi awgrymu y dylai diben statudol ar gyfer cynllunio ar wyneb y Bil gynnwys diffiniad o ddatblygu cynaliadwy a llesiant sy’n ymgorffori pwysigrwydd y Gymraeg.²²

48. Ar 14 Ionawr, esboniodd y Gweinidog ei fod yn credu bod bodolaeth Bil Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru), a’r cysylltiad rhyngddo a Bil Cynllunio (Cymru), yn dileu’r angen am ddiben statudol ar wyneb y Bil.²³

Ein barn ni

49. Argymhellodd yr IAG y dylai diben statudol ar gyfer cynllunio gael ei gynnwys ar wyneb y Bil. Pan ystyriodd y Pwyllgor y Bil drafft yn 2014, roedd y dystiolaeth a ddaeth i law yn ategu hynny a gwnaethom argymhelliad tebyg i Lywodraeth Cymru.

50. Mae’r dystiolaeth yr ydym wedi’i chael ynghylch y Bil wedi codi rhagor o resymau da dros gynnwys diben statudol. Nid ydym yn credu y byddai cynnwys diben statudol yn anwydo amcanion polisi’r Llywodraeth, nac yn gwrthdaro â darpariaethau Bil Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. A dweud y gwir, rydym yn credu y gallai cynnwys diben statudol ddangos y cysylltiadau rhwng y ddau Fil yn gliriach – sef cam sy’n sicr o fod o fantais i’r rhai a fydd yn dehongli’r ddeddfwriaeth hon yn y dyfodol.

Rydym yn argymhell y dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliant i’r Bil er mwyn cynnwys diben statudol ar gyfer cynllunio ynddo. Dylai’r diben gael ei ddrafftio ar linellau tebyg i’r diben statudol a argymhellir gan y Grŵp Cynghori Annibynnol yn eu hadroddiad.

²⁰ Cofnod y Trafodion 3 Rhagfyr 2014 c.380

²¹ Ibid c.389

²² Cofnod y Trafodion 11 Rhagfyr 2014 c.263

²³ Cofnod y Trafodion 14 Ionawr 2015 c.75

Rydym hefyd yn argymhell y dylai'r Bil gael ei ddiwygio i gynnwys darpariaeth a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol ar sut i gymhwyso'r diben statudol.

1.6 Y Gymraeg

51. Cawsom gyflwyniadau ysgrifenedig yn galw am i'r Bil Cynllunio newid y gyfraith fel bod caniatâd cynllunio'n gallu cael ei gymeradwyo neu ei wrthod ar sail effaith y cynnig ar y Gymraeg yn unig. Mae hyn yn cynnwys arweinwyr awdurdodau lleol a chynghorwyr o wyth cyngor (Ceredigion, Conwy, Gwynedd, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Wrecsam ac Ynys Môn).²⁴ Yn eu cyflwyniad ysgrifenedig nhw mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn dweud nad oes amddiffyniad statudol i awdurdodau cynllunio na phwyllgorau cynllunio os ydyn nhw am wrthod, neu ganiatáu, cais ar sail ei effaith ar yr iaith. Maen nhw'n credu bod hyn yn cryfhau'r achos dros wneud y Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol statudol a fyddai ynddi'i hun yn ddigon o reswm dros wrthod neu ganiatáu cais cynllunio.²⁵ Yn eu tystiolaeth nhw, tanlinellodd Cymdeithas y Cyfreithwyr y gallai'r dull hwn fod yn anghydnaws â chyfreithiau eraill ar hawliau dynol a deddfau Ewropeaidd.²⁶ Tynnodd y Gweinidog sylw at hyn hefyd yn ei dystiolaeth yntau i'r Pwyllgor.

52. Er hynny, ar 11 Rhagfyr, dywedodd Emyr Lewis a oedd yn cynrychioli Dyfodol i'r iaith:

“Mae hwn yn bwynt arall a godwyd gan Gymdeithas y Cyfreithwyr, fel rhyw is-bwynt. Rwy'n cytuno bod camddealltwriaeth wedi bod yn sicr—bod y rheini sy'n gofyn am rywbeth i ddigwydd mewn perthynas â'r iaith yn y Bil hwn yn gofyn i'r iaith fod yn drosgynnol uwchben pob dim arall. Nid wyf yn ymwybodol bod hynny'n ofyniad gan neb.”²⁷

53. Awgrymodd yn hytrach fod angen o dan rai amgylchiadau i'r Gymraeg gael mwy o bwysau wrth i benderfyniadau ar geisiadau cynllunio gael eu pwysu a'u mesur ac mai annigonol oedd statws cyfredol TAN 20 fel canllawiau yn unig. Y broblem ar hyn o bryd, meddai “yw bod lle'r Gymraeg

²⁴ Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 09, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan arweinwyr amryw o awdurdodau lleol*, Tachwedd 2014

²⁵ Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 51, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg*, Tachwedd 2014

²⁶ Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 55, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan Gymdeithas Cyfreithwyr Cymru a Lloegr*, Tachwedd 2014

²⁷ Cofnod y Trafodion 11 Rhagfyr 2014 c.302

yn yr hafaliad [cydbwyso] hwnnw yn fregus iawn”.²⁸ Roedd yn cytuno hefyd fod angen i'r Bil gael ei ddiwygio a'i gryfhau i egluro rôl y system gynllunio wrth gyflawni'r ddyletswydd y mae Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gosod i sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu.

54. Cafodd rôl bosibl asesiadau effaith iaith ei phwysleisio gan staff Comisiynydd y Gymraeg a ddadleuai y dylai'r effaith ar yr iaith gael ei hystyried yn yr un modd ac ochr yn ochr ag asesiadau o effaith ar yr amgylchedd a chynaliadwyedd:

“[...] yr hyn yr ydym yn gofyn amdano yw i sicrhau y byddai asesiad effaith iaith yn cael ei gynnal ar y cyd ag asesiadau ar yr amgylchedd a chynaliadwyedd. Byddai'r asesiadau yn mynd law yn llaw, a byddech yn cael darlun cyfan o effaith datblygiad ar yr ystyriaethau materol hynny. Felly, ni fyddai'r Gymraeg yn cael ei thrin ar wahân ond fel rhan o'r pecyn.”²⁹

55. Mae Nodyn Cyngor Technegol 20 diwygiedig (“TAN 20”) yn ei gwneud yn ofynnol i'r ACLI, wrth iddo baratoi ei CDLI, gynnwys asesiad o effaith y cynllun a'r cynigion datblygu ynddo ar y Gymraeg, a hynny fel rhan o Arfarniad Cynaliadwyedd ehangach.³⁰ Er hynny, ni ddylai ceisiadau unigol fod yn destun Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, oherwydd, yn ôl y canllawiau, byddai hynny'n dyblygu'r broses o ddethol safleoedd yn y CDLI.

56. Er hynny, nododd CLILC yr anghysondeb sydd i'w weld yn y canllawiau cynllunio cenedlaethol cyfredol. Mae TAN 20 yn dweud nad oes angen Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer ceisiadau cynllunio unigol, ond mae TAN 15 yn disgwyl i Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd gael eu cynnal ar gyfer rhai ceisiadau unigol.³¹

57. Yn Lloegr cafodd *Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*³² ei diwygio gan *Ddeddf Lleoliaeth 2011*³³ fel bod adran 70 i'w darllen erbyn hyn fel a ganlyn:-

70 Determination of applications: general considerations

(1) Where an application is made to a local planning authority for planning permission—

²⁸ Cofnod y Trafodion 11 Rhagfyr 2014 c.315

²⁹ Ibid c.247

³⁰ Llywodraeth Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg, Hydref 2013

³¹ Cofnod y Trafodion 27 Tachwedd 2014 c.448

³² Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 p.8

³³ Deddf Lleoliaeth 2011 p.20

- (a) subject to sections 91 and 92, they may grant planning permission, either unconditionally or subject to such conditions as they think fit; or
 - (b) they may refuse planning permission.
- (2) In dealing with such an application the authority shall have regard [to—
- (a) the provisions of the development plan, so far as material to the application,
 - (b) any local finance considerations, so far as material to the application, and**
 - (c) any other material considerations].

58. Yn hwyr yn y dydd y cafodd y cyfeiriad at ystyriaethau cyllid lleol fel ‘ystyriaeth berthnasol’ ei gyflwyno yn y ddeddfwriaeth sylfaenol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a chododd rywfaint o ddadlau. Mae Nodiadau Esboniadol *Deddf Lleoliaeth 2011* yn esbonio mai rhoi eglurder yw bwriad y ddarpariaeth ac nid newid y sefyllfa gyfreithiol o ran pwysau,³⁴ a hynny am nad yw’n newid adran 38 o DCGTh 2004 sy’n dal i’w gwneud yn ofynnol i benderfyniadau gael eu gwneud yn unol â’r cynllun datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn dynodi fel arall. Er hynny, mae’n egluro y gall ystyriaethau cyllid lleol fod yn ystyriaeth berthnasol. Tynnodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg sylw at y ffaith bod y cyfeiriad at ystyriaethau cyllid lleol fel ‘ystyriaeth berthnasol’ wedi’i ychwanegu at ddeddfwriaeth sylfaenol yn Lloegr, gan awgrymu bod hynny’n gosod cysail ar gyfer gwneud newid tebyg i gyfeirio at y Gymraeg yng Nghymru.³⁵

Ein barn ni

59. Mae’r Bil hwn yn gyfle i gefnogi twf y Gymraeg ledled Cymru. Clywsom ddadleuon grymus dros ddefnyddio’r Bil i ychwanegu at ddyletswydd yr awdurdodau cynllunio lleol i asesu effaith cynlluniau ar y Gymraeg ac i’w gwneud yn gliriach i’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau cynllunio y gall y Gymraeg fod yn ystyriaeth berthnasol wrth iddyn nhw ystyried ceisiadau cynllunio unigol. Ar ben hynny, rydym yn cydnabod y dystiolaeth a gawsom

³⁴ Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, *Localism Act 2011: Explanatory Notes*, Tachwedd 2011

³⁵ Cofnod y Trafodion 11 Rhagfyr 2014 c.298

ac a awgrymodd na ddylai'r Gymraeg fod yn ystyriaeth drech na phob ystyriaeth berthnasol arall.

60. Rydym yn credu y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i sicrhau bod effeithiau ar y Gymraeg yn cael eu hasesu a'u hystyried fel rhan o'r broses o greu cynlluniau ar bob lefel, hynny yw yr FfDC, CDSau, CDLLau a Chynlluniau Lleoedd.

61. Rydym yn credu hefyd y dylai'r Bil egluro i bawb sy'n rhan o'r broses gynllunio y gall y Gymraeg fod yn ystyriaeth berthnasol. Gallai hyn gael ei wneud mewn modd tebyg i'r dull a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddiwygio TCPA 1990 (drwy Ddeddf Lleoliaeth 2011) i wneud cyfeiriad penodol at ystyriaethau cyllid lleol fel ystyriaeth berthnasol.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'w gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n paratoi cynlluniau gynnal asesiad o effaith cynlluniau datblygu ar y Gymraeg wrth iddyn nhw baratoi Cynlluniau Datblyu Lleol, Cynlluniau Datblygu Strategol a'r Fframwaith Datblyu Ceneldaethol. O ran Cynlluniau Lleoedd, dylai asesiad iaith fod yn rhan o arfarniad cynaliadwyedd cyffredinol.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno welliant i adran 70 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, i'w gwneud yn glir i bawb sy'n ymwneud â chynllunio y caiff penderfynwyr roi sylw i'r effaith ar y Gymraeg i'r graddau y bydd yn berthnasol i gais. Dylai unrhyw welliant roi eglurhad ac nid newid y sefyllfa o ran pwysau.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gofyniad bod rhaid cynnal Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg yn achos ceisiadau cynllunio sylweddol penodol.

Rydym yn argymhell y dylid rhoi rôl ffurfiol i Gomisiynydd y Gymraeg wrth asesu ansawdd asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg, a hynny ar gyfer cynlluniau datblygu a cheisiadau cynllunio sylweddol penodol, er mwyn sicrhau cysondeb. Wrth wneud yr argymhelliad hwn, hoffem fod yn glir ein bod yn galw am rôl i Gomisiynydd y Gymraeg wrth asesu ansawdd asesiadau effaith iaith ac nid rôl yn y broses o ymdrin â cheisiadau cynllunio.

1.7 Cysylltiadau â chyfundrefnau cynllunio eraill sy'n bodoli neu sydd yn yr arfaeth

62. Mae tystion ac ymgynghoreion wedi galw am wybodaeth fwy pendant ynghylch sut gysylltiad a fydd rhwng y gwahanol fathau o gynlluniau sydd wedi'u cynnig ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Bil Cynllunio (Cymru) a Bil yr Amgylchedd (Cymru) sydd ar y gweill ac mae rhai wedi awgrymu y dylai'r cysylltiadau hyn fod yn eglur ar wyneb pob un o'r Biliau.

63. Mae'r Cadeirydd wedi ysgrifennu at y Gweinidog yn unswydd i ofyn a oes yna fwriad i ddefnyddio Bil yr Amgylchedd i egluro'r cysylltiadau rhwng Cynllunio Adnoddau Naturiol a Chynlluniau Datblygu.³⁶ Mae llythyr y Gweinidog ar 7 Ionawr yn cadarnhau nad oes ganddo fwriad ar hyn o bryd i ddefnyddio Bil yr Amgylchedd i ddiwygio'r Bil Cynllunio. Yn hytrach na hynny, bydd y cysylltiad â chynllunio adnoddau naturiol yn un anuniongyrchol, drwy'r nodau llesiant a'r cynlluniau llesiant lleol sydd i'w cynhyrchu gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Er hynny, mae'r llythyr yn dweud y bydd y Datganiadau Ardal sy'n ofynnol o dan Fil yr Amgylchedd yn cael eu defnyddio i fwydo cynlluniau lleisiant lleol a chynlluniau datblygu. Mae'r llythyr yn awgrymu hefyd y bydd nodau llesiant yn bwydo'n uniongyrchol i'r FfDC ac yn anuniongyrchol i CDSau a CDLLau.³⁷

64. Bydd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cyflwyno gofyniad statudol bod rhai i CDLLau roi sylw i gynlluniau llesiant lleol. Nid yw'n eglur a fydd gofyniad tebyg yn cael ei gyflwyno o ran CDSau hefyd. Nid yw'n glir ychwaith sut y bydd y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol ac unrhyw 'nodau amgylcheddol cenedlaethol' yn bwydo paratodau'r FfDC.

65. Mae'r angen am gysylltiadau â chyfundrefnau cynllunio statudol ac anstatudol eraill hefyd wedi'i weld yn y dystiolaeth. Mae cysylltiadau â chynlluniau trafndiaeth yn amlwg yn y rheoliadau ynglŷn â CDLLau (rhaid i'r CDLI roi sylw i unrhyw Gynllun Trafndiaeth Lleol a baratowyd o dan *Ddeddf Trafndiaeth 2000*) a hyd y gwyddys maen nhw'n debyg o gael eu cynnwys mewn rheoliadau tebyg ynghylch CDSau. Er hynny, does dim cysylltiad penodol wedi'i wneud yn y Bil rhwng trefniadau ar gyfer cynlluniau trafodaeth cenedlaethol statudol o dan *Ddeddf Trafndiaeth 2000/Deddf Trafndiaeth (Cymru) 2006* a'r FfDC.

³⁶ Llythyr Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd at y Gweinidog Adnoddau Naturiol, Rhagfyr 2014

³⁷ Llythyr gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, 7 Ionawr 2015

66. Dywedodd y Gweinidog a'i Brif Gynllunydd wrthon ni fod y Bil mewn gwirionedd yn ymdrin â'r cysylltiadau rhwng cynlluniau drwy ddarpariaethau cyffredinol sy'n ei gwneud yn ofynnol i bolisiâu cenedlaethol gael eu hystyried wrth greu'r FfDC, CDSau a CDLLau.³⁸ Roedd i lythyr y Gweinidog ar 9 Ionawr 2015 atodiadau sy'n rhoi rhagor o fanylion am sut y mae'n credu y bydd y berthynas rhwng gwahanol gynlluniau'n gweithio.³⁹

67. O ran cynllunio morol, dywedodd y Gweinidog mai cynllunio ar y tir yn unig oedd o dan sylw yn y Bil.⁴⁰ Er hynny, nododd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro fod angen i gynllunio morol a chynllunio ar y tir gydweddu â'i gilydd mewn rhannau o Gymru lle mae seilwaith yn cael ei ddatblygu ar gyfer ynni alltraeth.⁴¹

68. O safbwynt cynllunio morol, cyfeiriodd y Gweinidog unwaith eto at y rhan y bydd canllawiau'n ei chwarae.⁴²

Ein barn ni

69. Mae llythyr y Gweinidog aton ni ar 9 Ionawr yn gwneud rhywfaint i esbonio sut berthynas a geir rhwng y Bil a'r strwythurau newydd sydd i'w creu gan Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

70. Yn ystod ein gwaith ar y Bil hwn rydyn ni hefyd wedi clywed rhywfaint o dystiolaeth, yn arbennig gan y Gweinidog a'i swyddogion, sy'n dechrau esbonio sut y bydd y polisi cenedlaethol arfaethedig ar adnoddau naturiol a'r cynlluniau adnoddau naturiol ar gyfer ardaloedd yn cydberthyn i'r gyfundrefn gynllunio. Er hynny, mae rhywfaint o ddiffyg eglurder o hyd ac rydym yn disgwyl i'r berthynas gael ei hesbonio'n eglur cyn i Fil yr Amgylchedd gael ei gyflwyno.

Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi esboniad eglur o sut y bydd y polisi cenedlaethol arfaethedig ar adnoddau naturiol a chynlluniau adnoddau naturiol sydd wedi'u seilio ar ardaloedd yn cydberthyn i'r gyfundrefn gynllunio cyn i Fil yr Amgylchedd gael ei gyflwyno.

³⁸ Cofnod y Trafodion 14 Ionawr 2015 cc.83-90

³⁹ Llythyr gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, 9 Ionawr 2015

⁴⁰ Cofnod y Trafodion 27 Tachwedd cc.262-263

⁴¹ Ibid c.492

⁴² Cofnod y Trafodion 14 Ionawr 2015 c.98

71. Er bod y Bil yn cynnig pwerau cyffredinol i Weinidogion Cymru a fydd yn caniatáu iddyn nhw ystyried polisiâu perthnasol wrth lunio'r FfDC, nid yw'n pennu unrhyw bolisiâu penodol na chyfundrefnau cynllunio statudol eraill. Rydym yn gofidio, yn enwedig o gofio'r diffyg blaenoriaeth sydd wedi'i roi i'r polisi morol yn y gorffennol, ei bod yn bosibl na fydd cynlluniau ar y tir a chynlluniau morol yn cydweddu â'i gilydd gystal ag y gallen nhw oni bai bod y Gweinidog yn cymryd camau i sicrhau bod ei ddisgwyliadau yn hyn o beth yn glir. Bydd y Bil eisoes yn diwygio *Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009* gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynlluniau morol roi sylw i gynlluniau datblygu wrth baratoi cynlluniau morol. Mae'n ymddangos i ni y byddai'n synhwyrol i'r Bil gynnwys gofyniad tebyg i gynlluniau datblygu roi sylw i gynlluniau morol, lle bo'n briodol.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i sicrhau bod y cynlluniau morol a chynlluniau'r tir yn cyd-fynd yn agos â'i gilydd a'i bod yn ofynnol i'r rhai sy'n gwneud cynlluniau (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) roi sylw priodol i'r gydb berthynas rhwng y ddau amgylchedd hyn.

72. Pryder arall inni yw cynlluniau trafndiaeth, o gofio'i safle holl-bwysig mewn unrhyw fath o waith cynllunio strategol neu genedlaethol. Rydym yn credu y gallai'r Bil gael ei wella drwy greu cysylltiadau penodol rhwng cynlluniau trafndiaeth strategol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol a'r FfDC.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i gysylltu trefniadau'r cynlluniau trafndiaeth statudol cenedlaethol a rhanbarthol â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol.

73. Rydyn ni hefyd yn credu y byddai gwneud y cysylltiadau rhwng y Bil hwn a Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn eglur yn helpu pobl i ddeall sut mae'r deddfau hyn yn perthyn i'w gilydd.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i'w gysylltu â Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dylai'r gwelliannau hyn gynnwys cysylltiad ffurfiol rhwng y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r nodau llesiant.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gadarnhau y bydd y rheoliadau ynglŷn â Chynlluniau Datblygu Strategol yn cynnwys gofyniad bod rhaid i'r cynlluniau hynny roi sylw i'r Cynlluniau Llesiant Lleol perthnasol.

1.8 Parciau Cenedlaethol

74. Mae'r Gweinidog wedi datgan ei fod yn bwriadu cyflwyno gwelliannau ynglŷn â rôl y Parciau Cenedlaethol fel ACLlau. Mae llythyr y Gweinidog ar 7 Ionawr yn cadarnhau ei fod yn bwriadu cyflwyno gwelliant i'r Bil a fyddai'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i greu Byrddau Cydgynllunio a allai gynnwys rhan neu'r cyfan o Barc Cenedlaethol yn y dyfodol.⁴³ Yr unig ffordd i greu byrddau o'r fath ar hyn o bryd yw uno ACLI â rhan neu'r cyfan o un ACLI arall o leiaf, ond mae gwaharddiad pendant ar gynnwys unrhyw ran o Barc Cenedlaethol. Byddai'r Bil eisoes yn ei gwneud yn bosibl cyfarwyddo Awdurdod Parc Cenedlaethol ac ACLI arall i gynhyrchu CDLI ar y cyd.

75. Ar hyn o bryd, nid yw'r Gweinidog yn bwrw ymlaen â'r cynnig i ddileu swyddogaethau cynllunio Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn llwyr, sef cynnig yr ymgynghorwyd yn ei gylch fel dewis posibl yn Cynllunio Cadarnhaol. Cadarnhaodd hyn yn ein cyfarfod ar 14 Ionawr 2015.⁴⁴

76. Yn yr un cyfarfod, dywedodd y Gweinidog ei fod yn awyddus i gael y pŵer i uno swyddogaethau cynllunio awdurdodau parciau cenedlaethol ag ACLlau eraill er mwyn eu gosod ar yr un sail â phob ACLI arall yng Nghymru. Mynegodd ei farn hefyd nad oedd rheswm i ystyriaethau tirlun gwarchoddedig gael eu hystyried gan awdurdodau parciau cenedlaethol yn unig, gan gyfeirio at yr enghraifft o ACLlau eraill yn ystyried datblygiadau mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).⁴⁵

77. Dywedodd y Gweinidog hefyd nad oedd ganddo gynlluniau i uno ACLlau awdurdodau parciau cenedlaethol ar hyn o bryd.⁴⁶

78. Yn ei lythyr atom ar 21 Ionawr 2015, mae'r Gweinidog yn rhoi rhagor o wybodaeth am y mater hwn. Er hynny, nid yw ei ymateb yn canolbwyntio ar wahaniaethau ym mherfformiad cynllunio, ond yn hytrach ar faterion ehangach lle nad yw'r ACLlau ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol wedi bod yn gyson eu hymagwedd.⁴⁷

⁴³ Llythyr gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, 7 Ionawr 2015

⁴⁴ Cofnod y Trafodion 14 Ionawr 2015 c.42-70

⁴⁵ Ibid

⁴⁶ Ibid

⁴⁷ Llythyr y Gweinidog Adnoddau Naturiol at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd, 21 Ionawr 2015

Ein barn ni

79. Nid ydym wedi cael digon o dystiolaeth i awgrymu y dylai swyddogaethau cynllunio awdurdodau'r parciau cenedlaethol gael eu dileu ac mae'n dda gennym fod y Gweinidog wedi cadarnhau nad yw'n parhau â'r dewis hwn.

80. Nid ydym wedi cael tystiolaeth ychwaith i awgrymu unrhyw fanteision yn sgil uno swyddogaethau cynllunio awdurdodau'r parciau cenedlaethol ag ACLlau eraill. A dweud y gwir, awgrymodd tystiolaeth y Gweinidog inni fod awdurdodau'r parciau cenedlaethol yn perfformio "exactly as good" â'r ACLlau eraill wrth gyflawni canlyniadau cynllunio mewn tirluniau gwarchoddedig.⁴⁸ Nid ydym wedi'n hargyhoeddi bod yr ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar Gyflawni Gwasanaethau Cynllunio mewn Tirluniau Dynodedig Statudol wedi dangos bod penderfyniadau cynllunio a wnaed gan ACLlau mewn AHNEoedd yr un mor effeithiol o ran diogelu'r tirluniau hyn â'r penderfyniadau a wnaed gan awdurdodau'r parciau cenedlaethol, fel yr honnodd Prif Gynllunydd y Gweinidog. Yn ein barn ni, mae tystiolaeth yr adroddiad yn llai na phendant.

81. Rydym yn sylweddoli y gallai'r Gweinidog fynd ati (drwy wella'r Bil) i geisio'r pŵer i greu Byrddau Cydgynllunio a allai gynnwys rhan neu'r cyfan o barc cenedlaethol yn y dyfodol a'i fod yn ceisio'r pŵer hwn fel bod y pŵer ar gael iddo os bydd yn credu bod angen uno awdurdodau yn y dyfodol, hynny yw yn hytrach na cheisio'r pŵer at ryw ddiben sydd wedi'i benderfynu ymlaen llaw. Gallwn weld pam y byddai'r Gweinidog yn credu bod hyn yn ddymunol.

82. Er hynny, mae diogelu'n parciau cenedlaethol mor bwysig nes ein bod yn credu mai dim ond os oes yna dystiolaeth lethol y dylai pwerau gael eu rhoi a fyddai'n caniatáu i lywodraeth ddiwygio unrhyw rai o bwerau awdurdodau'r parciau cenedlaethol. Er nad oes gennym amheuaeth ynglŷn â bwriad y Gweinidog, nid ydym yn credu bod yr achos wedi'i wneud o blaid rhoi'r pwerau hyn ar hyn o bryd.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog adael y Bil fel y mae wedi'i ddrafftio o ran y Parciau Cenedlaethol ac y dylai ailystyried ei fwriad i gyflwyno gwelliannau i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru i greu Byrddau Cydgynllunio a allai gynnwys rhan neu'r cyfan o Barc Cenedlaethol yn y dyfodol.

⁴⁸ Cofnod y Trafodion 14 Ionawr 2015 c.64

1.9 Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd

83. Mae rhai ymgynghoreion wedi galw am ofyniad statudol bod rhaid cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (HIA) ar wahanol gyfnodau yn y system gynllunio. Mae Cymdeithas Feddygol Prydain (Cymru) wedi dadlau o blaid gofyniad statudol ar gyfer HIA mewn perthynas â cheisiadau cynllunio ar raddfa fawr.⁴⁹ Mae Tenovus yn dadlau y dylai HIA ddod yn rhan statudol o baratoi CDLI ac yn rhan statudol "within planning processes".⁵⁰ Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n galw am i HIA fod yn ofyniad statudol wrth baratoi'r FfDC, CDSau a CDLIau a hefyd fel rhan o'r broses o wneud cais am DAC.⁵¹ Hoffai Sustrans i HIAs fod yn orfodol yn y system gynllunio "in certain circumstances".⁵²

84. Yn ôl Polisi Cynllunio Cymru, fel rhan o arfarniadau cynaliadwyedd yr ACLlau wrth baratoi CDLIau, "dylid ystyried effeithiau'r cynlluniau ar iechyd a'r ffactorau sy'n effeithio ar iechyd".⁵³

Ein barn ni

85. Rydym yn credu y byddai'n fuddiol pe bai'r Gweinidog yn ystyried a ddylai gofyniad i gynnal HIAs gael ei gynnwys ar wyneb y Bil yn ystod cyfnod y cynllun datblygu ac yn achos rhai mathau o gais cynllunio. Mae angen hefyd i bolisiau a chanllawiau perthynol gael eu diwygio er mwyn sicrhau bod effeithiau datblygiadau ar iechyd yn cael eu hystyried mewn modd priodol.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog ystyried a ddylid cynnwys gofyniad yn y Bil bod rhaid cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd adeg y cynllun datblygu ac yn achos rhai mathau o gais cynllunio. Dylai bolisiau a chanllawiau perthynol gael eu diwygio hefyd er mwyn sicrhau bod effeithiau datblygiadau ar iechyd yn cael eu hystyried mewn modd priodol.

⁴⁹ Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 40, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan Gymdeithas Feddygol Prydain (Cymru)*, Tachwedd 2014

⁵⁰ Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 1, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan Tenovus*, Tachwedd 2014

⁵¹ Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 25, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan Uned Cymorth Asesu Effeithiau Iechyd Cymru*, Tachwedd 2014

⁵² Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 57, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan Sustrans*, Tachwedd 2014

⁵³ Llywodraeth Cymru, Polisi Cynllunio Cymru, Gorffennaf 2014

1.10 Yr Arolygiaeth Gynllunio

86. Rydym wedi cael rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu y gallai Arolygiaeth Gynllunio i Gymru ar wahân fod yn ddymunol, yn hytrach na changen o sefydliad i Gymru a Lloegr. Cododd hyn yn arbennig yng nghyd-destun y Gymraeg yn y system gynllunio a'r cyfundrefnau mwyfwy gwahanol sydd erbyn hyn yn datblygu ar wahân yng Nghymru a Lloegr yn sgil datganoli.

87. Er nad ydyn ni'n gwneud argymhelliad yn hyn o beth, rydyn ni'n credu y byddai'n fuddiol i Lywodraeth Cymru roi rhagor o ystyriaeth i'r mater.

2. Rhan 2 – Cynllunio Datblygu: y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol

2.1 Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (adran 2)

Statws Cynlluniau Datblygu a threfniadau gwaith craffu

88. Mae llythyr y Gweinidog ar 10 Rhagfyr yn cadarnhau y bydd i'r FfDC statws cynllun datblygu ffurfiol ac y gallai safleoedd ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DACau) gael eu hadnabod drwy'r FfDC.

Yn ôl y llythyr:

“Such proposals would then be subject to the formal preparation process as proposed by the Bill, be evidence-based and able to stand scrutiny by the National Assembly for Wales. [...] This mirrors the process for the inclusion of allocations in an LDP. Robust evidence to support the inclusion of such development will be critical.”⁵⁴

89. Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad cyfranogiad cyhoeddus yn nodi sut y byddant yn cynnal eu hymgyngoriad eu hunain ar yr FfDC. Rhaid i unrhyw gyfranogiad cyhoeddus wedyn gyd-fynd â'r datganiad hwn, ond nid yw'r Bil ei hun yn pennu beth fydd y trefniadau ymgynghori hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol (paragraff 3.21) yn dweud y bydd cyfnod ymgynghori “statudol” o 12 wythnos, ond nid yw hyn ar wyneb y Bil a does dim rheoliadau i'w gwneud yn benodol ynglŷn â'r gweithdrefnau ar gyfer yr FfDC.

90. Dadleuai Un Llais Cymru fod 12 wythnos i ymgynghori ar yr FfDC yn gyfnod rhy fyr beth bynnag, os bwriedir ymgysylltu â chymunedau lleol.⁵⁵ Soniodd CLILC mor fyr yw'r cyfnod ymgynghori o'i gymharu â'r broses ar gyfer paratoi CDLLau.⁵⁶

91. Mae'r trefniadau presennol ar gyfer gwaith craffu'r Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod drafft o'r FfDC gerbron y Cynulliad ac wedyn iddyn nhw “roi sylw” i unrhyw benderfyniad sy'n cael ei basio ynghylch y fframwaith neu unrhyw argymhelliad a wneir gan un o

⁵⁴ Llythyr gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, 10 Rhagfyr 2014

⁵⁵ Cofnod y Trafodion 27 Tachwedd 2014 c. 627

⁵⁶ Cofnod y Trafodion 27 Tachwedd 2014 c.459

bwyllgorau'r Cynulliad. Does dim angen i'r FfDC gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad a does dim rhaid i Weinidogion Cymru esbonio sut maen nhw wedi cymryd barn y Cynulliad i ystyriaeth. Hefyd, 60 diwrnod yw'r cyfnod sydd wedi'i bennu ar gyfer ystyriaethau'r Cynulliad.

92. Dywedodd Cymdeithas y Bar ar Gynllunio a'r Amgylchedd ("PEBA") wrth y Pwyllgor:

"[...] at the moment the Bill simply requires the Ministers to have regard to what is said in the National Assembly debate about that. That is obviously quite a low threshold as to what actually goes into that document. That document is clearly going to be fairly site-specific, because the Bill includes provisions for blight notices to be served on the basis of what is included within it. So, there are quite site-specific allocations, if you like, being made at that very, very high level with the only scrutiny, effectively, being through debate in the Assembly and then a duty on the part of the Government to have regard to that, but not necessarily to follow what is said."⁵⁷

93. Mae yna bryderon ynghylch y cyfnod o 60 diwrnod i'r Cynulliad ystyried y fframwaith. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, dywedodd RSPB Cymru:

"Our experience in Scotland with regard to the Scottish National Planning Framework is that a 60 day scrutiny period is insufficient in this respect, and consequently, we advocate a 100 day period. We understand that a number of Members of the Scottish Parliament voiced similar concerns about the 60 day timescale."⁵⁸

94. Mae Pwyllgor Materion Gwledig, Newid Hinsawdd ac Amgylchedd Senedd yr Alban wedi adrodd fel a ganlyn yn ddiweddar ar drydydd fersiwn Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol yr Alban:

"[...] stakeholders were concerned that the period of 60 days was insufficient to enable effective scrutiny of the draft NPF3... The Committee recommends that the Scottish Government reviews the process for consideration of the NPF with a view to extending the

⁵⁷ Cofnod y Trafodion 3 Rhagfyr 2014 c.351

⁵⁸ Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 32, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan RSPB Cymru*, Tachwedd 2014

timescales for future parliamentary scrutiny to a minimum of 90 sitting days.”⁵⁹

95. Wrth sôn am y cyfnod o 60 diwrnod, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

“We believe it is appropriate. It does not seem to have been an issue before in terms of scrutinising the spatial plan, but if committee feels it should be longer, it is something I would consider.”⁶⁰

96. Mae'r Cadeirydd wedi ysgrifennu at y Llywydd ynghylch goblygiadau'r Bil i'r Cynulliad, o gofio'i rôl wrth graffu ar yr FfDC, yn enwedig felly am y bydd statws cynllun datblygu ffurfiol iddo.⁶¹ Atebodd y Llywydd ar 8 Ionawr. Yn ei hateb mae'n awgrymu y dylai fod gan y Cynulliad y pŵer i benderfynu ar ei drefniadau craffu ei hun. Mae hi hefyd yn codi cwestiynau ynghylch y cyfnod o 60 diwrnod, arwyddocâd y ffaith y bydd gan yr FfDC statws cynllun datblygu a'r trefniadau gwahanol sydd neu a fydd ar gael o ran gwaith craffu annibynnol ar CDLLau a CDSau. Mae hefyd yn nodi'r gwahaniaeth rhwng y trefniadau presennol i'r Cynulliad gymeradwyo Cynllun Gofodol Cymru, er na fydd Llywodraeth Cymru ond yn gorfod 'rhoi sylw' i farn y Cynulliad ynglŷn â'r FfDC.⁶²

Ein barn ni

97. Mae'r cynigion yn awgrymu ar hyn o bryd y dylai cyfnod ymgynghori cyhoeddus Llywodraeth Cymru ar gyfer yr FfDC drafft fod yn 12 wythnos. Rydym ninnau'n credu bod hwn yn gyfnod rhy fyr i ymgynghori ar gynllun arwyddocaol. Er mwyn rhoi sicrwydd i'r rhanddeiliaid, rydyn ni hefyd yn credu y dylai'r cyfnod ymgynghori ymddangos ar wyneb y Bil.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i bennu hyd y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft ar wyneb y Bil. Rydym yn argymhell y dylai'r cyfnod hwnnw fod yn hirach na 12 wythnos.

98. Mae creu'r FfDC yn dod â goblygiadau arwyddocaol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, os bwriedir i'r Cynulliad wneud gwaith craffu trylwyr ar

⁵⁹ Pwyllgor Materion Gwledig, Newid Hinsawdd ac Amgylchedd Senedd yr Alban, *2nd Report, 2014 (Session 4): Report on the Proposed National Planning Framework 3*, 14 Mawrth 2014

⁶⁰ Cofnod y Trafodion 27 Tachwedd 2014 c.70

⁶¹ Llythyr Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd at y Llywydd, 11 Rhagfyr 2014

⁶² Llythyr y Llywydd at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, 8 Ionawr 2015

y cynllun hwn mewn modd sy'n cyfateb i'r cyfnod archwilio ym mhroses y CDLI ac sy'n cyd-fynd â gweithdrefnau seneddol ar gyfer ystyried materion lle y gellid effeithio'n benodol ar fuddiannau preifat.

99. Mae'n eglur i ni mai mater i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw penderfynu ar y trefniadau craffu sy'n gymwys i'r FfDC, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer ei ystyried. Mae'r cyfnod presennol o 60 diwrnod yn hynod o annigonol ar gyfer gwaith craffu manwl ar y cynllun. O ran cymhariaeth, mae'r Arolygiaeth Cynllunio yn gweithio yn ôl targed o 12 mis i gwblhau eu harchwiliad nhw o CDLI.

100. Gwnawn ragor o sylwadau ar yr effaith gronnol y gallai'r Bil hwn ei chreu ar hawliau'r unigolyn ym mhennod 5 o'r adroddiad hwn. O ran yr FfDC yn benodol, rydym yn credu y byddai cyfyngu ar yr amser sydd ar gael i'r Cynulliad archwilio'r FfDC yn cynyddu'r risg a welwyd gan y rhanddeiliaid y ceid 'diffyg democrataidd' o ran cynigion a allai effeithio ar hawliau pobl, gan gynnwys hawliau dros eiddo a'u hawl i gael bywyd teuluol. Ar y llaw arall, drwy ddileu'r cyfyngiad ar waith craffu y mae'r Bil yn ceisio ei osod ar hyn o bryd a chaniatáu i'r Cynullid ystyried yr FfDC mewn modd trylwyr, gallai'r 'diffyg democrataidd' hwn o ran yr FfDC gael ei leihau'n sylweddol.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i alluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i benderfynu ar ei weithdrefn ei hun ynglŷn ag ystyried y Fframwaith Datblygu Cenedloethol drafft ac, fel rhan o'r gwelliannau hyn, y dylai'r Gweinidog ddileu unrhyw gyfyngiad ar ystyriaethau'r Cynulliad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, yn enwedig y cyfnod ystyried o 60 diwrnod a bennir yn adran 2 o'r Bil.

101. Ar hyn o bryd, rhaid i Gynllun Gofodol Cymru gael ei gytuno gan y Cynulliad. Mae i'r FfDC fwy o arwyddocâd o ran cynllunio yn rhinwedd y ffaith ei fod yn gynllun datblygu ffurfiol, ac eto i gyd yr unig ofyniad ar Weinidogion Cymru yw rhoi sylw i farn y Cynulliad ynglŷn â'r FfDC.

102. Nid ydym yn gweld cyfiawnhad dros wanhau rôl y Cynulliad wrth gymeradwyo'r cynllun arwyddocaol hwn. Byddai gofyniad bod rhaid sicrhau cymeradwyaeth y Cynulliad fel y cyfnod olaf ym mhroses yr FfDC yn ychwanegu cryn ddilysrwydd i ystyriaethau'r Cynulliad ac i'r FfDC ei hun.

Rydym yn argymhell bod rhaid i'r Gweinidog ddiwygio'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad.

103. Wrth wneud yr argymhelliad uchod, hoffem fod yn glir y dylai darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i farn y Cynulliad ynghylch yr FfDC barhau ar wyneb y Bil.

Materion eraill ynglŷn â'r FfDC

104. Mae rhai ymatebwyr wedi dadlau dros roi oes diffiniedig i'r FfDC er mwyn iddo barhau'n hyblyg. Yn ôl y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi: "we recommend that the NDF has genuine engagement and public scrutiny in its preparation and then it is reviewed every three years rather than the five suggested".⁶³

105. Mae rhai tystion yn pryderu nad yw'n eglur a fydd yr FfDC yn ymgorffori cyfyngiadau amgylcheddol neu beidio, gan gynnwys ardaloedd o arwyddocâd yn y tirlun, yn ogystal ag ardaloedd lle mae yna gyfleoedd datblygu.

106. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru:

"We see the National Development Framework as an opportunity to plan, not just for built infrastructure, but for green infrastructure, wildlife, designated landscapes and natural resource management."⁶⁴

107. Dywedodd yr UKELA:

"[...] we are particularly concerned about how the process of creating the NDF is going to relate to processes for natural resource management."⁶⁵

108. Mae llythyr y Gweinidog ar 10 Rhagfyr yn cadarnhau y bydd angen i'r FfDC gymryd i ystyriaeth Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIPs), lle y gallai'r rheiny "have a bearing on Wales", ond y byddai angen i'r cyfundrefnau cydsynio priodol gael eu mynegi'n glir. O ran enghraifft mae'n enwi Wylfa Newydd, lle byddai graddfa'r datblygiad yn creu goblygiadau ehangach arwyddocaol.⁶⁶

⁶³ Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 34, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan Ffederasiwn yr Adeiladwyr Cartrefi*, Tachwedd 2014

⁶⁴ Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 16, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan Gyswllt Amgylchedd Cymru*, Tachwedd 2014

⁶⁵ Cofnod y Trafodion 3 Rhagfyr 2014 c.361

⁶⁶ Llythyr gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, 10 Rhagfyr 2014

Ein barn ni

109. Rydym yn cefnogi'r darpariaethau yn y Bil sy'n ceisio sicrhau bod adolygu'r FfDC yn cael ei ystyried o leiaf unwaith bob pum mlynedd, ond rydym yn credu y dylai'r darpariaethau hyn fod yn gryfach.

110. Rydym yn credu y dylai'r FfDC beidio â bod yn effeithiol ymhen pum mlynedd oni bai ei fod yn cael ei ddiwygio neu fod Gweinidogion Cymru'n gosod datganiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn esbonio pam nad oes angen ei ddiwygio.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i bennu dros ba gyfnod y mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i fod yn effeithiol.

2.2 Cynlluniau Datblygu Strategol (adrannau 3-9)

Yr angen am CDSau

111. Sylwadau cymysg a ddaeth i law ynghylch yr angen am yr haen ychwanegol hon yn hierarchaeth y cynlluniau datblygu, yn enwedig yng ngoleuni'r cynigion ar ad-drefnu llywodraeth leol a'r pwerau ychwanegol i'r Gweinidogion i naill ai cyfarwyddo ACLlau i baratoi CDLlau ar y cyd neu i uno ACLlau i ffurfio Bwrdd Cydgynllunio a all gynhyrchu CDLI i'r ardal unedig.

112. Mae'r angen am ymagwedd at gynllunio ar lefel ehangach na lleol neu ar lefel 'ranbarthol' yn achos materion strategol wedi'i dderbyn yn gyffredinol. Er hynny, mae rhai o'r farn bod modd mewn gwlad fach fel Cymru i hyn gael ei wneud naill ai drwy'r FfDC neu drwy gael ACLlau i gydweithio'n anffurfiol ar y materion strategol hyn. Bydd ACLlau mwy ar gael beth bynnag ar ôl i lywodraeth leol gael ei had-drefnu.

113. Awgrymodd Cyfoeth Naturiol Cymru y byddai cynlluniau ar gyfer chwe ardal yn ddigon pe ceid chwe ACLI yn unig.⁶⁷

114. Mae'r UKELA yn dweud hyn: "If a strong and comprehensive NDF is to be introduced for a relatively small country such as Wales, there does not appear to be a case for developing SDPs [...] for particular areas".⁶⁸

⁶⁷ Cofnod y Trafodion 3 Rhagfyr 2014 c.58

⁶⁸ Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 46, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan Gymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig*, Tachwedd 2014

115. Er hynny, dadleuai'r Gweinidog nad oedd CDSau yn haen ychwanegol ond yn hytrach yn "redistribution of choice". Dywedodd hefyd fod y Bil yn ddiogel at y dyfodol ac felly "whatever happens to local government and LPAs in the future, the strategic plan could be developed".⁶⁹

Dynodi Ardal Cynllunio Strategol

116. Dywedodd hefyd y câi CDSau eu seilio "on working with local authorities, so they will determine whether they will wish to have an SDP not." Er hynny, mae'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddynodi ardal cynllunio strategol (SPA) ac i sefydlu Panel Cynllunio Strategol.

117. Dywedodd Prif Gynllunydd y Gweinidog:

"[...] what the evidence has shown from the LDP process is that those strategic issues have been dealt with inadequately through the LDP process. So, this is an opportunity to look at them over a wider area and achieve the best possible planning outcomes."⁷⁰

118. Mae llythyr y Gweinidog ar 10 Rhagfyr wedi egluro'r goblygiadau i'r ACLlau os rhan yn unig o'u hardal sydd mewn SPA, sef un o ganlyniadau posibl y Bil fel y mae wedi'i ddrafftio.

119. Mae'r llythyr yn dweud: "issues relating to data collection or broader consistency are likely to mean that whole LPAs are included. This could be a more pragmatic solution, rather than increase fragmentation and complexity". Er hynny, mae hefyd yn nodi mai mater i'w benderfynu gan yr awdurdodau hynny a fyddai'n ymwneud â pharatoi'r CDS fyddai hyn. Mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i newid SPA a gynigir gan ACLlau, cyhyd â'u bod yn ymgynghori â'r awdurdodau.⁷¹

Cynllunio strategol mewn ardaloedd heb CDS

120. Mae rhai tystion wedi dadlau bod materion cynllunio strategol yn bodoli mewn ardaloedd y tu allan i'r tair ardal a awgrymwyd yn Cynllunio Cadarnhaol (y De-ddwyrain, Bae Abertawe, coridor yr A55). Mae rhywfaint o ansicrwydd a yw'r materion hyn i gael eu trin ar lefel yr FfDC neu mewn rhyw fodd arall.

⁶⁹ Cofnod y Trafodion 27 Tachwedd 2014 c. 119

⁷⁰ Ibid c.120

⁷¹ Llythyr gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, 10 Rhagfyr 2014

121. O ran ystyried niferoedd tai awgrymodd y WPCF:

“[...] there is a question mark; if you are going to have only three SDPs and there is a gap, what happens in those gap areas?”⁷²

122. Er hynny, dywedodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fod gan yr FfDC:

“[...] the potential to provide a strategic planning framework for the whole of Wales, including the rural areas. I am not personally convinced that there is a case for having strategic development plans to cover every part of Wales.”⁷³

123. Awgrymodd Cymdeithas y Cyfreithwyr y gallai dynodi SPA fod yn ffordd o ymdrin â chynllunio a'r Gymraeg:

“[...] you could use the strategic planning model, for example, to address issues relating to planning and the Welsh language across those parts of Wales where the language is spoken by the majority of the population.”⁷⁴

Panelli Cynllunio Strategol

124. Yr agwedd fwyaf dadleuol ar y cynigion ynghylch CDSau yw cyfansoddiad y Paneli Cynllunio Strategol (SPPs) ac yn benodol y ffaith y bydd un rhan o dair yn gynrychiolwyr anetholedig o blith rhanddeiliaid cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

125. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

“Currently, as proposed within the Bill, the whole panel will have voting rights, but, again, I am interested to understand the views of the committee. That is a starting point for us, but, should the committee have a view on that, I would be very interested to understand it.”⁷⁵

126. Mae rhai tystion wedi pwysleisio mor bwysig yw'r broses dethol/ recriwtio sydd i'w defnyddio i ddewis aelodau o'r paneli. Dywedodd FSB Cymru fod angen gwaith craffu priodol ynglŷn â'r broses: “whether you have

⁷² Cofnod y Trafodion 3 Rhagfyr 2014 c.189

⁷³ Cofnod y Trafodion 27 Tachwedd 2014 c.520

⁷⁴ Cofnod y Trafodion 3 Rhagfyr 2014 c.371

⁷⁵ Cofnod y Trafodion 27 Tachwedd 2014 c.141

a third or not, there needs to be a process by which we know why those people are appointed”.⁷⁶

127. Yn eu tystiolaeth nhw, dywedodd RTPI Cymru: “We believe transparency in selecting Panel Members will be important to maintain trust and buy-in from local communities, local authorities and businesses.” Maen nhw’n dadlau y dylid dilyn egwyddorion Nolan wrth wneud penodiadau.⁷⁷ Ategwyd hyn gan Gymdeithas y Cyfreithwyr hefyd.⁷⁸

128. Mae llythyr y Gweinidog ar 7 Ionawr yn esbonio ei fod bellach yn ystyried cyflwyno gwelliant i’r Bil i ddisodli’r gofyniad bod rhaid cyhoeddi rhestr o gyrff y gellir eu gwahodd i enwebu â rhestr ddarluniadol i’w chynnwys mewn canllawiau. Mae hefyd wedi rhoi rhestr ddrafft o’r mathau o sefydliadau a allai gael eu cynnwys. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau o’r sectorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.⁷⁹

129. Yn yr Alban, mae CDSau yn cael eu paratoi gan awdurdodau cynllunio datblygu strategol sy’n cynnwys cynrychiolwyr o’r awdurdodau lleol yn unig, er bod modd i aelodau heb bleidlais gael eu cyfethol hefyd.

130. Yn DCPHG 2004 cyflwynwyd cynlluniau rhanbarthol statudol yn Lloegr am y tro cyntaf. O ganlyniad i’r Ddeddf honno, roedd Corff Cynllunio Rhanbarthol yn gyfrifol am baratoi Strategaeth Ofodol Ranbarthol i bob un o’r naw rhanbarth yn Lloegr. Roedd yn ofynnol bod gan y cyrff hyn o leiaf 30% o aelodau nad oedden nhw’n wleidyddion ac roedd gan yr aelodau hyn hawliau pleidleisio llawn. Er hynny, mae’r Cyrff Cynllunio Rhanbarthol wedi’i diddymu bellach.

Cysylltiadau â chynlluniau trafndiaeth

131. Mae’r Datganiadau o Fwriad Polisi yn esbonio y bydd y rheoliadau ar gyfer CDSau yn dilyn yn un ymagwedd â Rheoliadau CDLLau 2005, gan gynnwys nodi manylion ffurf a chynnwys y cynllun. Byddan nhw hefyd yn nodi’r gweithdrefnau sydd i’w dilyn, gan gynnwys gweithdrefnau ar gyfer archwiliad annibynnol ar y cynllun gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ran

⁷⁶ Cofnod y Trafodion 11 Rhagfyr 2014 c.111

⁷⁷ Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 24, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol*, Tachwedd 2014

⁷⁸ Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 55, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan the Law Society*, Tachwedd 2014

⁷⁹ Llythyr gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, 7 Ionawr 2015

Gweinidogion Cymru. Fel y nodwyd uchod, mae Rheoliadau CDLlau yn ei gwneud yn ofynnol i CDLlau roi sylw i unrhyw Gynlluniau Trafnidiaeth Lleol.⁸⁰

Ein barn ni

132. Sylwadau cymysg a ddaeth i law ynghylch yr angen am yr haen ychwanegol hon yn hierarchaeth y cynlluniau datblygu, yn enwedig yng ngoleuni'r cynigion ar ad-drefnu llywodraeth leol a'r pwerau ychwanegol i'r Gweinidogion i naill ai cyfarwyddo ACLlau i baratoi CDLlau ar y cyd neu i uno ACLlau i ffurfio Bwrdd Cydgynllunio a all gynhyrchu CDLI i'r ardal unedig.

133. Er hynny, rydyn ni hefyd yn cydnabod bod yr angen am ymagwedd 'ehangach na lleol' neu 'ranbarthol' at gynllunio ar gyfer materion strategol wedi'i dderbyn yn gyffredinol.

134. At ei gilydd, rydym wedi dod i'r casgliad y gallai CDS fod yn ddewis defnyddiol mewn rhai rhannau o Gymru, yn arbennig yn y De-ddwyrain ac felly rydyn ni'n fras o blaid y darpariaethau yn y Bil sy'n caniatáu i'r rhain gael eu creu.

135. Mae'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio yn caniatáu i ran o ardal awdurdod cynllunio lleol gael ei chynnwys mewn Ardal Cynllunio Strategol. Er hynny, mae'r Gweinidog wedi dweud mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor y byddai Ardaloedd Cynllunio Strategol yn fwyaf tebyg o fod yn gymwys i ardaloedd cyfan awdurdodau cynllunio lleol yn hytrach na rhannau o ardaloedd. Esboniodd fod hynny'n deillio o "issues relating to data collection or broader consistency" ac y gallai hyn fod yn "more pragmatic solution, rather than increase fragmentation and complexity".

136. Rydym yn deall y gellid cael amgylchiadau lle y byddai'n briodol rhannu ardal awdurdod cynllunio lleol at ddibenion cynllunio strategol, er bod gennyn ni rai pryderon ynglŷn â'r goblygiadau. Y benodol, fe allai hyn arwain at gynnwys rhan o ardal awdurdod cynllunio lleol mewn Cynllun Datblygu Strategol a fyddai'n golygu mai CDLI 'ysgafn' yn unig a fyddai'n angenrheidiol yno, tra byddai angen CDLI cyflawn i weddill yr ardal o hyd. Gallai hynny wneud system y cynlluniau datblygu'n fwy cymhleth.

137. A throi at y Paneli Cynllunio Strategol, rydym yn rhannu'r pryderon sydd wedi'u codi ynghylch rôl aelodau anetholedig y paneli hyn a'r potensial y gallai hynny wanhau atebolrwydd democrataidd y system gynllunio ymhellach.

⁸⁰ Llywodraeth Cymru, Bil Cynllunio (Cymru): Datganiadau o Fwriad Polisi, Tachwedd 2014

138. I gryfhau atebolrwydd democrataidd y paneli, rydym yn credu y dylai'r Bil gael ei ddiwygio i ddileu hawliau pleidleisio aelodau anetholedig o'r paneli. Rydyn ni hefyd yn credu bod darpariaethau yn y Bil sy'n sicrhau mai dim ond pan fydd y mwyafrif o'r aelodaeth etholedig yn bresennol y bydd cworwm yng nghyfarfodydd y panel yn bwysig.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i ddileu hawliau pleidleisio aelodau anetholedig o Baneli Cynllunio Strategol.

3. Ymgynghori cyn ymgeisio

3.1 Taliadau am ymgynghori cyn ymgeisio

139. Cododd Cyfoeth Naturiol Cymru y cwestiwn a fyddan nhw, yn rhinwedd eu swydd fel ymgynghorai statudol, yn cael codi tâl am roi ymatebion i ymgynghoriadau cyn ymgeisio, ar yr amod y daw'r ymatebion hyn yn ddyletswydd statudol o dan adran 15 o'r Bil. Dadleuai Cyfoeth Naturiol Cymru fod angen gosod ffiniau o amgylch yn hyn y mae'n ofynnol iddyn nhw ei ddarparu o ran cyngor cyn ymgeisio:

“What we are seeing is that a resource implication is identified for local planning authorities, but perhaps the implication for statutory consultees is a bit uncertain at the moment.”⁸¹

140. Mae adran 16 fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch darparu gwasanaeth cyn ymgeisio gan ACLlau neu gan Weinidogion Cymru. Mae'r ymgynghoriad ynghylch *Rhoi Pwyslais ar Brosesau Cychwynnol y System Rheoli Datblygu* yn dweud y dylai ACLlau gael adennill cost lawn darparu'r gwasanaeth cyn ymgeisio ac y dylai'r ffioedd gael eu seilio ar y taliadau dewisol presennol, ond gan hepgor tâl am ddatblygiadau deiliaid tai o bosibl.⁸² Fel y maen nhw wedi'u drafftio ar hyn o bryd, nid yw'r darpariaethau hyn yn gymwys i ymgynghoreion statudol.

141. Ar 14 Ionawr 2015, esboniodd y Gweinidog na fyddai yna waith ychwanegol i ymgynghoreion statudol, er y byddai'n ofynnol iddyn nhw roi eu cyngor yn gynharach yn y broses.⁸³

142. Nododd RenewableUK Cymru y gall codi tâl am gyngor cyn ymgeisio greu problemau:

“[...] there are concerns that have emerged from elsewhere in the UK, that during the pre-application consultation and advice periods, statutory consultees can charge for some advice—in pilot projects elsewhere in the UK—but it is not sufficiently clear where that advice is charged for and where that advice is part of the pre-application procedure. That is a difficulty, and that can become a difficulty later

⁸¹ Cofnod y Trafodion 3 Rhagfyr 2014 c.29

⁸² Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad ynghylch *Rhoi Pwyslais ar Brosesau Cychwynnol y System Rheoli Datblygu*, Hydref 2014

⁸³ Cofnod y Trafodion 14 Ionawr 2015 c.244

in the process, where you have been advised by one statutory consultee in advice to do one thing, but the charged-for advice or the statutory advice that you then receive later down the line contradicts that.”⁸⁴

3.2 Costau sy'n gysylltiedig ag ymgynghori cyn ymgeisio

143. Mae rhai rhanddeiliad wedi codi pryderon ynghylch y costau sy'n gysylltiedig ag ymgynghori cyn ymgeisio. Mae Redrow Homes o'r farn bod costau'r datblygwyr wrth ymgynghori â chymunedau cyn ymgeisio wedi'u tanbrisio'n ddybryd yn yr RIA.⁸⁵ Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor mai'r rheswm am hyn yw bod lefel yr ymgynghori a wneir gan rai datblygwyr yn fwy na'r gofynion isaf sy'n debyg o gael eu nodi yn yr is-ddeddfwriaeth.

144. Dywedodd:

“It is a minimum, but it is much more than communities have had in the past. This is about a signposting process and a letter to the local community. I am aware that some private sector contractors go further than that. [...] This is another part of the Bill that I am very flexible on, in terms of what you think would be appropriate for your communities. It is something I would be happy to take advice on.”⁸⁶

145. Mae'r ymgynghoriad ynghylch Rhoi Pwyslais ar Brosesau Cychwynnol y System Rheoli Datblygu yn esbonio:

“[...] we do not want this process to overburden developers but we do want to secure effective publicity. Therefore we propose that the minimum publicity requirements will comprise the following:

- Site notice(s)
- Letters to neighbours, all local ward members, any town or parish councils”⁸⁷

146. Er hynny, mae yna bryder na fydd y lefel hon o ymgynghori cyn ymgeisio yn ddigon i sicrhau bod cymunedau'n ymwneud yn iawn â

⁸⁴ Cofnod y Trafodion 11 Rhagfyr 2014 c.29

⁸⁵ Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 21, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan Redrow Homes*, Tachwedd 2014

⁸⁶ Cofnod y Trafodion 27 Tachwedd 2014 c.203

⁸⁷ Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad ynghylch *Rhoi Pwyslais ar Brosesau Cychwynnol y System Rheoli Datblygu*, Hydref 2014

chynigion datblygu. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei fod yn hyblyg ynghylch y rhan hon o'r cynigion ac y byddai'n croesawu'n sylwadau ni.⁸⁸

147. Ar gyfer proses NSIPs, ar y llaw arall, ceir gofynion llawer mwy ymestynnol ynglŷn ag ymgynghori cyn ymgeisio a'r rheiny ar wyneb Bil Cynllunio 2008.⁸⁹ Mae'r rhain yn cynnwys paratoi Datganiad Ymgynghori Cymunedol, cytuno arno gyda'r ACLI, rhoi cyhoeddusrwydd iddo ac wedyn ei roi ar waith.

148. Mae hyn yn golygu y gallai cais am brosiect ynni 49MW yng Nghymru olygu bod angen llawer llai o ymgynghori cyn ymgeisio na phrosiect ynni 51MW.

3.3 Trothwyon

149. Y trothwy sydd wedi'i gynnig ar hyn o bryd o ran cynnal ymgynghoriadau cyn ymgeisio yw 'datblygiadau sylweddol' yn unig. Mae rhai tystion wedi awgrymu bod y trothwy hwn naill ai'n rhy isel neu'n rhy uchel.

150. Dadleuai Redrow Homes y dylai'r trothwy 'datblygiad sylweddol' o 10 o anheddau gael ei gynyddu i 50 o anheddau, er eu bod yn cydnabod na fyddai hynny'n gweithio mewn ardaloedd gwledig.⁹⁰

151. Awgrymodd Cymdeithas y Cyfreithwyr fod yna fathau o ddatblygiad o bosibl y byddai cymunedau'n disgwyl i'r datblygwyr ymgynghori â nhw yn eu cylch, megis ceisiadau am nifer fach o dyrbinau gwynt.⁹¹

152. Nid yw'r trothwy priodol ar wyneb y Bil ond mae'n rhan o'r ymgynghoriad ar wahân ynghylch rhoi pwyslais ar y prosesau cychwynnol.

153. Mae'r ymgynghoriad ynghylch rhoi pwyslais ar y prosesau cychwynnol yn awgrymu ar hyn o bryd mai hysbysiadau ar y safle a llythyrau i'r cymdogion ac i wleidyddion lleol fydd y gofynion isaf ar gyfer pob cais am "ddatblygiad sylweddol". Bydd hefyd yn ofynnol ymgynghori ag ymgynghoreion statudol penodedig. Mae'r cyfnod cyn ymgeisio'n debyg o gael ei ddynodi'n 21 diwrnod. Mae'n ymddangos y bydd y cynigion hyn yn gymwys hefyd i geisiadau am DACau ac ar hyn o bryd nid yw'n ofynnol i'r

⁸⁸ Cofnod y Trafodion 27 Tachwedd 2014 c.203

⁸⁹ Deddf Cynllunio 2008 p.29

⁹⁰ Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 21, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan Redrow Homes*, Tachwedd 2014

⁹¹ Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 55, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan Gymdeithas y Cyfreithwyr*, Tachwedd 2014

datblygiadau mwyaf (gan gynnwys ceisiadau am DACau) wneud mwy na'r isafswm statudol.

3.4 Diffinio ymgynghoreion statudol

154. At ddibenion adrannau 15 a 35 o'r Bil, mae llythyr y Gweinidog ar 7 Ionawr yn cadarnhau bod y 'personau penodedig' yr un fath â'r rhai sydd wedi'u rhestru yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012. Yn ychwanegol at Gyfoeth Naturiol Cymru, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr Awdurdod Glo a Chyngor Chwaraeon Cymru, mae'r rhestr hefyd yn cynnwys awdurdodau priffyrdd lleol, awdurdodau cynllunio lleol a Gweinidogion Cymru eu hunain (o ran ceisiadau sy'n effeithio ar gefnffyrdd neu henebion neu golli swm arwyddocaol o dir amaethyddol).⁹²

155. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn ystyried rôl cwmnïau cyfleustodau yn y broses gynllunio.⁹³ Nid yw'r cwmnïau hyn wedi'u rhestru ar hyn o bryd yng Ngorchymyn 2012. Nid yw'r ymgynghoriad presennol ynghylch rhoi pwyslais ar brosesau cychwynnol y system rheoli datblygu yn gwahodd sylwadau ar ddiffinio ymgynghoreion statudol.

Ein barn ni

156. Rydym yn cefnogi'r bwriad y tu ôl i gyflwyno cyfnod ymgynghori cyn ymgeisio gan y gallai hynny wella effeithlonrwydd y broses o wneud cais gan sicrhau bod cymunedau'n cael gwybod mewn da bryd am ddatblygiadau posibl.

157. Dangosodd y dystiolaeth a gawsom fod gan rai rhanddeiliaid ac ymgynghoreion statudol bryderon am y goblygiadau iddyn nhw os caiff trefniadau statudol ynglŷn ag ymgynghori cyn ymgeisio eu cyflwyno. Yn niffyg cynigion manwl gan Lywodraeth Cymru, mae'n anodd i ni ffurfio barn. Gan ddibynnu sut y bydd Llywodraeth Cymru'n ymateb i'w hymgyngghoriad ynghylch rhoi pwyslais ar brosesau cychwynnol y system rheoli datblygu (a ddaeth i ben ar 16 Ionawr 2015) fe allai'r pryderon hyn gael sylw. Byddwn yn monitro hyn drwy gyfrwng ein gwaith craffu cyffredinol.

⁹² Llythyr gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, 7 Ionawr 2015

⁹³ Cofnod y Trafodion 14 Ionawr 2015 c.101

158. O ran y gofynion isaf ynglŷn ag ymgynghori cyn ymgeisio, rydym yn credu y byddai ymagwedd haenog yn well, fel bod angen lefel uwch o ymgynghori ynglŷn â chynigion ar gyfer datblygiadau mwy.

159. Dylai'r trefniadau ar gyfer ymgynghori cyn gwneud cais am DAC fod yn fwy beichus na'r gofynion isaf arfaethedig presennol, ac fe hoffem weld amlinelliad o'r rhain ar wyneb y Bil.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn gwella'r trefniadau cyn ymgeisio sy'n gymwys i geisiadau am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac amlinellu'r trefniadau hyn yr wyneb y Bil.

160. Fel mesur diogelu ychwanegol, hoffem weld y rheoliadau'n nodi pa categorïau o ddatblygiadau a ddylai fod yn destun penderfyniad cadarnhaol.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn trefnu bod y rheoliadau a fydd yn nodi pa categorïau o ddatblygiad a ddylai ddod o dan y weithdrefn cyn ymgeisio yn cael eu hystyried o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

161. Mae'r Gweinidog wedi dweud ei fod yn ystyried a ddylai cwmnïau dŵr, a chwmnïau cyfleustodau eraill o bosibl, fod yn ymgynghoreion statudol. Yn benodol, gallwn weld y budd mewn gwneud ymgymeryd dŵr a charthffosiaeth yn ymgynghoreion statudol yn y cyfnod cyn ymgeisio, yng nghyfnod y cais ac yn y cyfnod ar ôl y penderfyniad. Er hynny, rydym yn cydnabod y gall fod yn anodd ei gwneud yn ofynnol i bob cwmni dŵr sy'n gweithredu yng Nghymru gymryd camau i ymateb i unrhyw ymgynghoriad gan fod rheoleiddio unrhyw ymgymeryd dŵr nad yw ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru wedi'i hepgor o gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Yn amodol ar unrhyw faterion ynglŷn â chymhwysedd deddfwriaethol, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog ystyried gwneud ymgymeryd dŵr yn ymgynghoreion statudol. Gofynnwn i'r Gweinidog adrodd yn ôl inni ar ei ystyriaethau ar y mater hwn erbyn diwedd mis Mawrth 2015.

4. Rhan 4 – Pwerau Gweinidogion Cymru i Wneud Penderfyniadau

4.1 Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DACau) (adrannau 17-19, 24)

Diffinio DAC

162. Caiff DAC ei ddiffinio mewn is-ddeddfwriaeth, yn amodol ar benderfyniad cadarnhaol gan y Cynulliad. Er hynny, rhoddodd yr ymgynghoriad ynghylch Cynllunio Cadarnhaol awgrym o'r hyn sy'n debyg o gael ei gynnwys. Mae'r diffiniad arfaethedig yn adlewyrchu'r hyn sydd ar hyn o bryd yn dod o dan broses Gorchymyn Caniatáu Datblygu (DCO) Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIPs) yn Lloegr. Mae hwn yn ymdrin â cheisiadau lle byddai penderfyniadau wedi cael eu gwneud yn Lloegr gan yr ACLI cyn Deddf Cynllunio 2008. Yr eithriadau yw prosiectau ynni 25-50MW sydd hefyd wedi'u cynnwys a chynlluniau priffyrdd sylweddol nad ydyn nhw wedi'u cynnwys. Mae Deddf Cynllunio 2008 yn cynnwys y diffiniadau o NSIPs ar ei wyneb. Gall y rhain gael eu diwygio drwy is-ddeddfwriaeth.

163. Clywsom bryderon y gallai diffyg diffiniad o DAC ar wyneb y Bil arwain llywodraeth yng Nghymru yn y dyfodol i ddiwygio'r diffiniad er mwyn cyfiawnhau cyflwyno'r categori newydd hwn o ddatblygiadau. Er enghraifft, roedd y gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar nifer y ceisiadau am DACau ar hyn o bryd hefyd yn cynnwys prosiectau busnes a masnach mawr.

Caniatâd cynllunio v cydsyniad datblygu

164. Yn llythyr y Gweinidog ar 10 Rhagfyr at y Cadeirydd, esbonnir bod y penderfyniad i fabwysiadu dull caniatâd cynllunio a chydsyniadau eilaidd perthynol, yn hytrach na dull y Gorchymyn Caniatâd Cynllunio (DCO) sengl, wedi'i gymryd am na fernid ei bod yn hwylus creu math newydd o gydsyniad gan y byddai hynny'n creu "further complexity". Hefyd, "creation of a new consent type would not be a proportionate solution to infrastructure developments, which are likely to be few in number".⁹⁴

165. Er hynny, os penderfynir datganoli rhagor o bwerau cydsynio i Gymru ynglŷn ag ynni, yna byddai nifer y datblygiadau seilwaith lle mae'r penderfyniadau i'w cymryd gan Weinidogion Cymru'n codi ac wedyn byddai

⁹⁴ Llythyr gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, 10 Rhagfyr 2014

angen penderfynu a ddylai cyfundrefn DCO ar wahân gael ei sefydlu ar gyfer prosiectau ynni mwy yng Nghymru ynteu cynnwys cynlluniau ynni mwy yn y trefniadau ar gyfer DACau sydd wedi'u nodi ar hyn o bryd yn y Bil.

166. Mae adroddiad Rhan 2 Comisiwn Silk yn argymhell datganoli pwerau cynllunio i gymeradwyo prosiectau ynni hyd at 350MW, ac mae Llywodraeth Cymru wedi galw am ddatganoli pob cydsyniad ynni heblaw ynni niwclear. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi addo ymateb erbyn dydd Gŵyl Dewi 2015.⁹⁵

167. Awgrymodd tystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas y Cyfreithwyr hyn:

“[...] there should be powers for the Welsh Ministers to adopt a single permission or consent covering both planning permission and the secondary consents, and for this to be a “live” document like the proposed new form of planning permission.”⁹⁶

168. Mae llythyr y Gweinidog ar 10 Rhagfyr yn cadarnhau y bydd y Bil yn caniatáu i rywfaint o gydsyniadau eilaidd (atodol) gael eu penderfynu gan Weinidogion Cymru yr un pryd â'r cais cynllunio ar gyfer y prif DAC a hynny drwy un hysbysiad penderfynu. Er hynny, byddai hwnnw'n dal yn cynnwys cyfres o gydsyniadau/caniatadau ar wahân, bob un wedi'i wneud o dan y Ddeddf bresennol briodol, yn hytrach nag un cydsyniad wedi'i seilio ar un darn o ddeddfwriaeth.⁹⁷

169. Bydd adran 18 o'r Bil yn sicrhau y gall cydsyniadau eilaidd perthynol ar gyfer ceisiadau am DACau gael eu penderfynu'n uniongyrchol gan Weinidogion Cymru, os ydyn nhw o'r farn y dylen nhw gael eu gwneud ganddyn nhw yn lle gan yr awdurdod cydsynio arferol. Caiff y cydsyniadau eilaidd hyn eu disgrifio mewn is-ddeddfwriaeth. Mae datganiadau Llywodraeth Cymru o fwriad polisi yn rhoi rhagor o fanylion am y mathau o gydsyniad eilaidd a allai gael eu cynnwys (e.e. cyfnewid tir comin, cau neu wro priffordd, prynu tir yn orfodol ar gyfer datblygiad).⁹⁸ At ei gilydd, mae'r rhain yn gydsyniadau nad ydyn nhw'n gyfystyr â datblygu ohonyn nhw eu hunain.

⁹⁵ Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, Adroddiad Rhan 2, Mawrth 2014

⁹⁶ Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 55, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan Gymdeithas Cyfreithwyr Cymru a Lloegr*, Tachwedd 2014

⁹⁷ Llythyr gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, 10 Rhagfyr 2014

⁹⁸ Llywodraeth Cymru, Bil Cynllunio (Cymru): Datganiadau o Fwriad Polisi, Tachwedd 2014

170. Yn y sesiwn dystiolaeth olaf, ar 14 Ionawr 2014, cadarnhaodd y Gweinidog y gallai'r adran hon hefyd gynnwys datblygu 'cysylltiedig' lle byddai'r cais fel arall yn mynd i'r ACLI;⁹⁹ er enghraifft, is-orsaf ar gyfer fferm wynt. Nid yw'r Datganiadau o Fwriad Polisi'n esbonio hyn.

171. Er nad oes sôn am drwyddedau amgylcheddol yn y datganiadau o fwriad polisi, rydym o'r farn y gallai'r diffiniad o gydsyniadau eilaidd o dan adran 18 gynnwys trwyddedau amgylcheddol a fyddai fel rheol yn cael eu rhoi gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Byddai hynny'n golygu mai Gweinidogion Cymru yn hytrach na Chyfoeth Naturiol Cymru a fyddai'n rhoi'r trwyddedau hyn. Mae'r Pwyllgor a'r IAG wedi argymhell o'r blaen y dylai prosesau trwyddedu amgylcheddol redeg yn gyfochrog lle bynnag y bo modd â'r system ceisiadau cynllunio, ond nid yw hynny o reidrwydd yn golygu mai Gweinidogion Cymru a ddylai wneud y penderfyniad. Mae trwyddedau amgylcheddol eisoes yn gallu cael eu cynnwys fel rhan o'r DCO sengl ar gyfer NSIPs yng Nghymru (ac yn Lloegr), ond dim ond â chaniatâd ymlaen llaw gan Gyfoeth Naturiol Cymru (neu Asiantaeth yr Amgylchedd).

Ein barn ni

172. Er mwyn rhoi mwy o sicrwydd ac i gyd-fynd â'r ddeddfwriaeth ar gyfer NSIPs rydym o'r farn y dylid cynnwys diffiniad o DAC ar wyneb y Bil yn hytrach na'i nodi yn nes ymlaen mewn is-ddeddfwriaeth.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog ddiwygio'r Bil i gynnwys diffiniad o Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol ar wyneb y Bil, gyda darpariaeth a fyddai'n caniatáu i'r diffiniad hwnnw gael ei ddiwygio o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

173. Er mwyn bod yn sicr bod y darpariaethau yn y Bil ynglŷn â sefydlu Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn ddigon diogel at y dyfodol, hoffem weld datganiad clir o fwriad Llywodraeth Cymru ynghylch sut y penderfynir ar gynlluniau ynni uwchlaw 50MW yng Nghymru os ceir rhagor o ddatganoli. Er enghraifft, a fyddai proses Gorchymyn Caniatâd Datblygu NSIPs yn cael ei dyblygu yng Nghymru ynteu a fyddai'r cynlluniau ehangach hyn yn cael eu cynnwys ym mhroses y DAC?

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog nodi sut mae'n bwriadu penderfynu ar gynlluniau ynni uwchlaw 50MW yng Nghymru os ceir rhagor o ddatganoli. Wrth iddo fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, rydym yn gofyn i'r Gweinidog fod yn eglur a fydd proses y Gorchymyn Caniatâd

⁹⁹ Cofnod y Trafodion 14 Ionawr 2015 c.174

Datblygu NSIPS yn cael ei dyblygu yng Nghymru; a fydd y cynlluniau ehangach hyn yn cael eu cynnwys ym mhroses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol; neu a fydd rhyw broses arall yn gymwys.

174. Rydym wedi cael eglurhad gan y Gweinidog y gallai adran 18 o'r Bil gynnwys datblygiadau cysylltiedig a fyddai fel arall yn cael eu penderfynu gan yr ACLI. Er hynny, nid yw'r datganiadau o fwriad polisi na'r Memorandwm Esboniadol yn gwneud hyn yn eglur.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gymryd camau i'w gwneud yn glir y gallai adran 18 o'r Bil gael ei defnyddio i roi pŵer i Weinidogion Cymru i benderfynu ar ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn ogystal â chydsyniadau eilaidd/atodol.

175. O ran eglurder, rydyn ni hefyd yn credu y dylai'r mathau o gydsyniad eilaidd a allai gael eu penderfynu'n uniongyrchol gan Weinidogion Cymru ochr yn ochr â chais am DAC ymddangos ar wyneb y Bil, gyda phŵer i ddiwygio'r rhestr drwy benderfyniad cadarnhaol. Mae'n werth nodi bod Deddf Cynllunio 2008 yn cynnwys rhestr anghyflawn o gydsyniadau atodol ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol ar ei wyneb. Os nad yw'r Gweinidog yn awyddus i wneud gwelliant o'r fath, rydym yn credu y dylai unrhyw orchymyn a wneir i restru'r cydsyniadau a fydd yn 'gydsyniadau eilaidd' ddod o dan y weithdrefn gadarnhaol.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn cynnwys rhestr o'r cydsyniadau eilaidd a allai gael eu penderfynu'n uniongyrchol gan Weinidogion Cymru wrth ochr cais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol ar wyneb y Bil, gyda phŵer i ddiwygio'r rhestr drwy benderfyniad cadarnhaol. Os nad yw'r Gweinidog yn awyddus i wneud gwelliant o'r fath, rydym yn credu y dylai gyflwyno gwelliannau i sicrhau y dylai unrhyw orchymyn a wneir er mwyn diffinio'r mathau hyn o gydsyniad ddod o dan y weithdrefn gadarnhaol.

176. Mae'n dda gennym fod y Bil yn caniatáu i gydsyniadau cyfochrog gael eu trin a'u trafod. Yr unig amheuaeth sydd gennym yw nad yw'n ofynnol gofyn caniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru os bydd Gweinidogion Cymru o blaid cymryd y cyfrifoldeb dros roi trwyddedau amgylcheddol ar gyfer cais am DAC. Mae Deddf Cynllunio 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud hyn yn achos NSIPs.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog egluro a yw'n bwriadu cymryd cyfrifoldeb dros roi trwyddedau amgylcheddol ar gyfer ceisiadau penodol am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac, os ydy, y dylai gyflwyno gwelliannau i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i gydsyniad

Cyfoeth Naturiol Cymru gael ei roi cyn y caiff Gweinidogion Cymru wneud penderfyniad ynghylch rhoi trwyddedau amgylcheddol ochr yn ochr â phroses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

4.2 Amserlenni a dyddiadau cau statudol

177. Mae nifer o dystion wedi gofyn pam na fydd proses DACau yn dod o dan amserlenni a dyddiadau cau penodol, yn wahanol i broses y DCO lle ceir gofyniad statudol bod rhaid i benderfyniad gael ei roi gan yr Ysgrifennydd Gwladol o fewn 12 mis ar ôl i gais gael ei dderbyn yn ffurfiol.

178. Dywedodd Prif Gynllunyydd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

“[...] we are not suggesting statutory deadlines, but we have a target of 36 weeks in the statement of policy intent for developments of national significance, and certainly, for the optional direct applications, we are looking to work towards the same targets as local authorities work to, as the Minister described—eight weeks for standard planning applications and 16 weeks where an environmental impact assessment is involved. So, there are targets there. They are not statutory targets, but we do have targets that we are working to.”¹⁰⁰

Dywedodd y WPCF:

“We are quite content with applications being referred or transferred to Welsh Government to make the decision, provided that the same standards and the same requirements then apply to the Welsh Government as they do to local government. [...] If Welsh Government is going to take on this role, so be it, that is fine, but as I see it, there is no evidence yet that it is going to be increasing its skills base and its ability to meet deadlines. That is the problem. There is nothing at all, historically, that demonstrates to us that, when an application enters this arena, through the Welsh Government, it gets speeded up.”¹⁰¹

¹⁰⁰ Cofnod y Trafodion 27 Tachwedd 2014 c.103

¹⁰¹ Cofnod y Trafodion 3 Rhagfyr 2014 c.276

179. Awgrymodd Cymdeithas y Cyfreithwyr hefyd mai Gweinidogion Cymru a ddylai wneud y penderfyniadau ar DACau, yn hytrach na'u dirprwyo i Arolygwyr Cynllunio, i adlewyrchu proses yr NSIPs yn Lloegr.¹⁰²

Ein barn ni

180. Rydym wedi'n hargyhoeddi gan y dystiolaeth a gawsom y dylai Llywodraeth Cymru gael ei rwymo gan ddyddiad cau statudol.

181. Byddai dyddiad cau o'r fath yn rhoi mwy o hyder a sicrwydd i ymgeiswyr ac yn gosod Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa debyg i ACLlau a'r Ysgrifennydd Gwladol.

182. Does gennyn ni ddim amserlen benodol mewn cof, er ei bod yn ymddangos bod y 36 wythnos a awgrymwyd yn yr ymgynghoriad yn synhwyrol. Nodwn hefyd y cyfnod o 12 mis sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i benderfynu ar geisiadau o dan gyfundrefn y DCO ar gyfer NSIPs.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn sefydlu amserlen hiraf statudol i Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a chydsyniadau eilaidd cysylltiedig gael eu penderfynu gan Weinidogion Cymru ar ôl i gais o'r fath gael ei gyflwyno'n ffurfiol. Mewn achosion lle na chedwir at yr amserlen, dylai'r gwelliannau hyn gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru i esbonio'r rhesymau dros fynd y tu hwnt i'r amserlen.

¹⁰² Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 55, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan Gymdeithas Cyfreithwyr Cymru a Lloegr*, Tachwedd 2014

5. Rhan 5: Rheoli Datblygu

5.1 Pwyllgorau Cynllunio, rôl Aelodau a dirprwyo (adran 37)

183. Bydd adran 37:

- yn cyflwyno cynllun dirprwyo cenedlaethol. Bydd y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i fynd ati drwy reoliadau i'w gwneud yn ofynnol i ACLI wneud trefniadau i swyddogaethau ynglŷn â cheisiadau cynllunio gael eu cyflawni gan bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog i'r awdurdod. Yn ymarferol, bydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i nodi o dan ba amgylchiadau y caiff cais cynllunio ei benderfynu gan Bwyllgor Cynllunio ac o dan ba amgylchiadau y gall gael ei benderfynu gan un o swyddogion yr awdurdod; ac
- yn caniatáu i Weinidogion Cymru fynd ati drwy reoliadau i ragnodi gofynion ynglŷn a maint a chyfansoddiad pwyllgorau cynllunio.

184. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymgynghoriad arall ynghylch Pwyllgorau cynllunio, dirprwyo a byrddau cydgynllunio, ynglŷn a sut i ddefnyddio'r pwerau hyn.¹⁰³

185. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn dweud bod Llywodraeth Cymru'n ceisio cytuno ar brotocol cenedlaethol anstatudol ar bwyllgorau cynllunio, gan gynnwys materion megis ymweld â safleoedd, y cyhoedd yn siarad mewn cyfarfodydd pwyllgor ac ymwneud yr Aelodau â'r trafodaethau cyn ymgeisio.

186. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, dywedodd CLILC:

"[...] we do not understand the desire to legislate on the size of planning committees or for a national scheme of delegation. Only 3 LPAs [...] do not have planning committees within the proposed banding [...] so it should not be an onerous task to work with these LPAs to bring the size of the committee in line with the proposals. Section 3191ZB introduced by Section 37 should therefore be removed."¹⁰⁴

187. Maen nhw hefyd yn amau pam y mae protocol gwirfoddol i bwyllgorau ar gyfer materion fel y cyhoedd yn siarad mewn cyfarfodydd, ymweld â

¹⁰³ Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad ynghylch pwyllgorau cynllunio, dirprwyo a byrddau cydgynllunio, Hydref 2014

¹⁰⁴ Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 54, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru*, Tachwedd 2014

safleoedd etc. yn dderbyniol (fel y mae wedi'i gynnig yn yr ymgynghoriad ar wahân) er nad yw'n dderbyniol i faint pwyllgorau a chynllun dirprwyo cenedlaethol gael eu pennu'n wirfoddol".¹⁰⁵

188. Argymhellodd yr astudiaeth a gomisiynwyd gan yr RTPI y dylid cyflwyno cynllun dirprwyo cenedlaethol gorfodol i Gymru a fyddai'n cael ei ymgorffori mewn cynlluniau lleol, ei adolygu'n rheolaidd (o leiaf bob tair blynedd) a'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r cynllun yn cynnwys ceisiadau ar gyfer 'datblygiadau arwyddocaol'; mater i'w benderfynu yng nghynlluniau'r awdurdodau lleol fyddai diffinio 'arwyddocaol'.¹⁰⁶

189. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â mabwysiadu'r model hwn. Mae'n dadlau fel hyn: "the continuation of local schemes with individual variations (particularly in relation to the definition of significant development) is contradictory to the overriding aim of introducing a national scheme of delegation".

190. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

"Once you have introduced flexibilities to the system, there seems to be very little point in having defined lists about where these things apply."¹⁰⁷

191. Mae tystion eraill wedi dadlau na fydd 'un ateb sy'n addas i bawb' yn gweithio, o gofio'r amrywio presennol ym maint yr ACLlau a'u llwyth gwaith cynllunio.

192. Dywedodd y Cynghorydd Andrew Morgan o Rondda Cynon Taf:

"Under the planning Bill, if we were to use this all-encompassing scheme of delegation, my authority, which is the third largest in Wales, would have dealt with only eight in four months. [...] it would have meant that some committee meetings would have been cancelled, because there would be simply no business. [...] Local authorities need some flexibility on their determinations, or else it could make a farce of the situation."¹⁰⁸ ac

¹⁰⁵ Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 54, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru*, Tachwedd 2014

¹⁰⁶ RTPI Cymru, Study into the operation of Planning Committees in Wales: Final report, Gorffennaf 2013

¹⁰⁷ Cofnod y Trafodion 27 Tachwedd 2014 c.229

¹⁰⁸ Ibid c.285

“[...] if in excess of 90% of the applications are dealt with through delegation by officers, you could end up with that 90% simply coming back through to members as appeals.”¹⁰⁹

193. Nododd y Cyngorydd Giles Howard o Gyngor Sir Mynwy y gallai lleihau nifer y ceisiadau sydd i'w trafod gan y pwyllgor ac felly lleihau amllder y cyfarfodydd greu problemau o safbwynt y targedau statudol o wyth wythnos a 13 wythnos wrth benderfynu ar geisiadau.¹¹⁰

194. Awgrymodd Cymdeithas y Cyfreithwyr sbardun ychwanegol posibl ar gyfer cyfeirio cais at bwyllgor, nad yw wedi'i gynnwys ar hyn o bryd yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, sef pan fydd cyngor tref neu gymuned yn gwrthwynebu'r cais.

195. Nododd yr UKELA fod y pwerau i reoleiddio pwyllgorau cynllunio wedi'u hysgrifennu mewn modd eang iawn:

“[...] Welsh Ministers can direct that any planning function be discharged by a committee, subcommittee or officer of the authority; and can 'prescribe the terms of the arrangements' for the discharge of functions by a planning committee.”¹¹¹

196. Bydd adran 37 yn cyflwyno'r cynllun dirprwyo cenedlaethol. Bydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i fynd ati, drwy reoliadau, i'w gwneud yn ofynnol i ACLI wneud trefniadau i swyddogaethau ynglŷn â cheisiadau cynllunio gael eu cyflawni gan bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog. Nid yw manylion y cynllun cenedlaethol ar wyneb y Bil ond mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgynghori yn eu cylch. Bydd y rheoliadau yn dod o dan y weithdrefn negyddol.

197. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig cynllun a gâi ei fabwysiadu gan bob ACLI yn hytrach na chynllun cenedlaethol a fyddai'n caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd lleol o ran diffinio beth sy'n 'arwyddocaol' yn lleol. Dyna'r cynnig a argymhellwyd gan yr ymchwil a gomisiynwyd gan yr RTPi.

198. Rydym wedi clywed tystiolaeth am rai o'r problemau ymarferol sy'n gysylltiedig â chynllun 'un ateb sy'n addas i bawb' a hefyd bryderon am

¹⁰⁹ Cofnod y Trafodion 27 Tachwedd 2014 c.291

¹¹⁰ Ibid c.307

¹¹¹ Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 46, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan Gymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig*, Tachwedd 2014

gyfyngu'r cyfraniad democrataidd lleol at wneud penderfyniadau cynllunio os bwriedir i'r mwyafrif o geisiadau gael eu penderfynu gan swyddogion.

199. Mae'r UKELA yn gofidio bod y pŵer hwn yn eang iawn gan ei fod yn caniatáu i'r rheoliadau bennu unrhyw swyddogaeth gynllunio a phwy ddylai fod yn gyfrifol amdani, yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer cyflawni'r swyddogaeth honno.¹¹²

200. Mae adran 37 hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru fynd ati drwy reoliadau i ragnodi gofynion ynglŷn â maint a chyfansoddiad pwyllgorau cynllunio. Daw'r rheoliadau hyn o dan y weithdrefn negyddol.

201. Dadleuai CLILC y dylai'r rhan hon o adran 37 gael ei dileu, gan mai tri yn unig o ACLlau (ym mis Tachwedd 2014) oedd heb bwyllgorau cynllunio eisoes o fewn y bandiau arfaethedig (11-21 o aelodau).¹¹³

Ein barn ni

202. Rydym yn gyffredinol yn cefnogi bwriad llywodraeth Cymru i wella cysondeb y broses gynllunio ledled Cymru ond yn credu bod modd gwneud hynny mewn modd sy'n caniatáu mesur o hyblygrwydd lleol. Argymhellodd yr ymchwil a gomisiynwyd gan y Llywodraeth fesur o hyblygrwydd mewn cynllun dirprwyo cenedlaethol ac rydyn ninnau'n credu y byddai'r dull sydd wedi'i argymhell gan yr RTPI yn mynd i'r afael â llawer o'r pryderon a fynegwyd ynglŷn â'r rhan hon o'r Bil.

203. Byddai'r ffaith bod trefniadau dirprwyo lleol yn dal yn gorfod cael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru yn sicrhau bod cydbwysedd priodol yn cael ei daro rhwng yr angen am gysondeb ac ateb anghenion lleol.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheoliadau ar gyfer cynllun dirprwyo cenedlaethol, pan gyflwynir nhw, ddilyn y model a gynigwyd gan ymchwil Llywodraeth Cymru ei hun – hynny yw, cynllun cenedlaethol ac iddo rywfaint o hyblygrwydd lleol, a phob cynllun lleol i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru o hyd.

204. Bydd y rhan hon o'r Bil yn rhoi pwerau eang i Weinidogion Cymru i ragnodi'r trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau cynllunio a phwy

¹¹² Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 46, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan Gymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig*, Tachwedd 2014

¹¹³ Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 54, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru*, Tachwedd 2014

ddylai fod yn gwneud penderfyniadau ar faterion cynllunio. Mae angen i'r Gweinidog esbonio'n eglur at beth y mae'n bwriadu defnyddio'r pwerau hyn, ac rydym yn credu y byddai cynnwys rhagor o wybodaeth ym Memorandwm Esboniadol y Bil yn helpu yn hyn o beth.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog ddiwygio Memorandwm Esboniadol y Bil er mwyn esbonio'n glir y mathau o benderfyniadau sydd i'w dirprwyo i swyddogion yn defnyddio'r pwerau yn Adran 37 o'r Bil.

205. Rydym yn cefnogi awgrym Cymdeithas y Cyfreithwyr ynglŷn â sbardun ychwanegol ar gyfer cyfeirio cais at bwyllgor cynllunio, nad yw wedi'i gynnwys ar hyn o bryd yn ymgyngoriad Llywodraeth Cymru, sef pan fydd cyngor tref neu gymuned yn gwrthwynebu'r cais. Byddai hynny'n helpu i adfer y cydbwysedd democrataidd yn y Bil hwn yr ydym wedi mynegi pryderon yn ei gylch mewn penodau blaenorol yn yr adroddiad hwn.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheoliadau ynglŷn â chynllun dirprwyo cenedlaethol, pan gyflwynir nhw, ei gwneud yn ofynnol i gais cynllunio gael ei gyfeirio at bwyllgor pan fydd cyngor tref neu gymuned lleol yn gwrthwynebu cais.

206. Bydd adran 37 o'r Bil sy'n mewnosod adran 319ZB yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi gofynion ynglŷn â maint a chyfansoddiad pwyllgorau cynllunio, drwy reoliadau. O ran egwyddor, rydym yn cefnogi'r pŵer hwn. Oherwydd y goblygiadau ar gyfer democratiaeth leol a allai ddod yn sgil y pŵer hwn, rydym yn credu y dylai rheoliadau a gâi eu gwneud o dan yr adran hon ddod o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 37 o'r Bil i sicrhau bod y rheoliadau o dan adran 3197B o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi gofynion ynglŷn â maint a chyfansoddiad pwyllgorau cynllunio yn dod o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

207. Nid ydym yn glir pam mae trefniadau ar gyfer materion pwysig fel ymweld â safleoedd, y cyhoedd yn siarad mewn cyfarfodydd pwyllgor ac ymwneud yr aelodau â thrafodaethau cyn ymgeisio wedi'u cynnwys mewn protocol anstatudol ynglŷn â phwyllgorau cynllunio pan fo agweddau eraill ar y broses yn dod o dan ddarpariaeth statudol. Rydym yn credu y dylai'r trefniadau hyn hefyd fod yn statudol

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i beri bod y protocol ynglŷn â phwyllgorau cynllunio'n un statudol.

5.2 Amrywio cais ar ôl hysbysiad am apêl (adrannau 42, 45)

208. Mae rhai tystion ac ymatebwyr wedi awgrymu y dylai'r adran hon gael ei diwygio er mwyn parhau i ganiatáu diwygiadau a fyddai'n peri bod cynllun yn dderbyniol, er mwyn osgoi gorfod dechrau'r broses gyfan eto.

209. Mae Boyer Planning yn dweud:

“Restricting the Appellant’s ability in this regard could prevent the opportunity for an acceptable form of development to be achieved. It is often the case that Reasons for Refusal are added at the Planning Committee stage that are not substantive matters and can be overcome through negotiation and modification. To deny the ability to achieve this during the Appeal process would seem nonsensical in the context of the priority afforded to sustainable development.”¹¹⁴

210. Mae'r WPCF yn dweud:

“[...] there are instances where matters arise that are capable of being addressed by minor revisions, and the inspector should have the flexibility to accept those with discretion. In terms of the amendments that are required to the Bill, our comments are purely that: as long as we can have that degree of flexibility, we are satisfied.”¹¹⁵

211. Mae Cymdeithas y Cyfreithwyr yn awgrymu ffordd i oresgyn y canlyniad anfwriadol sy'n codi yn sgil gwahardd diwygiadau ar ôl i apêl yn erbyn gwrthod gael ei gwneud:

“This prohibition may mean that some applications which have been refused but subsequently rendered acceptable to the local planning authority by the negotiation of amendments with the applicant, would have to start again afresh if they had already entered the appeal system after being refused. This could be avoided by allowing the Inspectorate, with the agreement of the parties, to return an application that has been refused for amendment, re-consultation and re-determination by the local planning authority.”¹¹⁶

¹¹⁴ Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 35, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan Boyer Planning*, Tachwedd 2014

¹¹⁵ Cofnod y Trafodion 3 Rhagfyr 2014 c.301

¹¹⁶ Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 55, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan Gymdeithas Cyfreithwyr Cymru a Lloegr*, Tachwedd 2014

Ein barn ni

212. Mae'r dystiolaeth a gawsom yn darparu ateb pragmataidd i newid anfwriadol posibl yn y broses a fyddai'n dileu lefel synhwyrol o hyblygrwydd o ran ystyried mân amrywiad ar gais ar ôl hysbysiad am apêl.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 42 o'r Bil i adlewyrchu cynnig Cymdeithas y Cyfreithwyr, ond dylai hyn gynnwys gofyniad bod rhaid i gais diwygiedig gael ei ddychwelyd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol at ddibenion ymgynghori eto.

5.3 Dyfarnu costau i Weinidogion Cymru (adran 44)

213. Byddai adran 44 o'r Bil yn ymestyn gallu Gweinidogion Cymru i adennill eu costau pan fo apêl yn cael ei chynnal drwy sylwadau ysgrifenedig. Ar hyn o bryd, gall costau gael eu hadennill os bydd apêl yn mynd i ymchwiliad neu wrandawriad. Er bod paragraff 3.152 o'r Memorandwm Esboniadol yn dweud mai cynnig y Llywodraeth yw mai dim ond os oes parti wedi ymddwyn yn afresol y dylai'r costau gael eu hadennill, doed dim sôn yn y Bil am ymddygiad afresymol.

214. Mae Cylchlythyr 23/93 'Awards of costs incurred in planning and other (including compulsory purchase order) proceedings' yn rhoi'r canllawiau cyfredol ynghylch pa bryd y mae modd adennill costau mewn materion cynllunio.

215. Mae Cymdeithas y Cyfreithwyr yn dweud:

"[...] the Welsh Ministers should only be able to initiate an award of costs if there is unreasonable behaviour by one of the parties: they should not be able charge their costs to the parties on every appeal, whether or not there is unreasonable behaviour. As currently drafted, section 44 does not limit the Welsh Ministers' ability to initiate costs to cases of unreasonable behaviour."¹¹⁷

216. Mae Boyer Planning yn dweud:

¹¹⁷ Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 55, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan Gymdeithas Cyfreithwyr Cymru a Lloegr*, Tachwedd 2014

“[...] It would be wrong and counter to natural justice if such costs were being sought to administer a legitimate appeal as this would impede and discourage Appeals by increasing the financial burden.”¹¹⁸

Ein barn ni

217. Rydym yn cydnabod y byddai'n anodd ceisio diffinio ymddygiad afresymol ar wyneb y Bil.

218. Er hynny, mae'r canllawiau cyfredol wdi mynd yn hen a heb eu diwygio fydden nhw ddim yn gymwys i ddarpariaethau'r Bil hwn.

Rydym yn argymhell y dylai Cylchlythyr 23/93 'Dyfarnu costau mewn trafodion cynllunio a thrafodion eraill (gan gynnwys Gorchymyn Prynu Gorfodol)' gael ei ddiweddarau cyn i adran 44 gychwyn i adlewyrchu'r newidiadau sydd wedi'u gwneud gan y Bil hwn ym mhroses adennill costau mewn apelau.

5.4 Y gweithdrefnau ar gyfer apelau, galw i mewn a cheisiadau uniongyrchol (adran 45)

219. Mae'r Datganiadau o Fwriad Polisi yn dweud y bydd y rheoliadau sydd i'w gwneud o dan yr adran hon yn caniatáu i'r Gweinidogion neu i'r Arolygiaeth Gynllunio gyfarwyddo bod gwybodaeth benodol yn cael ei chyflwyno o fewn "ffrâm amser benodol".¹¹⁹ Does dim byd i ddangos beth yw'r ffrâm amser hon.

220. Mae rhai tystion wedi galw am i'r adran hon bennu terfynau amser gofynnol er mwyn diogelu hawliau unigolion. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio bod yr adran hon yn rhan o becyn cyffredinol o gynigion i ddiwygio'r system apelio, ac nad oes angen deddfwriaeth sylfaenol newydd ar gyfer rhai ohonyn nhw (paragraff 3.142-3.146).

221. Mae'r UKELA yn dweud yn eu tystiolaeth ysgrifenedig fod yr adran hon yn rhoi pwerau eang i Weinidogion Cymru i ragnodi'r weithdrefn sydd i'w dilyn mewn unrhyw ymchwiliad, gwrandawriad neu achos drwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig:

“There is no provision to protect the basic rights of individuals to make representations in these processes. The focus is only on the

¹¹⁸ Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 35, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan Boyer Planning*, Tachwedd 2014

¹¹⁹ Llywodraeth Cymru, Bil Cynllunio (Cymru) Datganiadau o Fwriad Polisi, Tachwedd 2014

efficiency of such proceedings with reference to the power to include in regulations time limits for submitting representations in writing and any supporting documents; and generally for different classes of proceedings or an individual proceeding. [...] This is of crucial importance and UKELA is very concerned that there is no reference in the Bill to the setting of minimum time limits in order to protect the rights of interested individuals.”¹²⁰

222. Mae'r modd i ddileu hawl apelwyr i gael gwrandawriad gerbron person penodedig eisoes wedi'i gyflwyno ar wahân ym mis Hydref 2014 drwy ddefnyddio pwerau presennol o dan *Ddeddf Cynllunio 2008*.¹²¹ Mae darpariaeth debyg yn gymwys yn Lloegr hefyd.

223. Cafodd pwynt ei wneud i'r Pwyllgor gan PEBA ynglŷn ag effaith gronol y newidiadau yn y Bil, gan gynnwys yr FfDC, Gweinidogion Cymru'n gwneud penderfyniadau ar geisiadau am DACau a'r rhagdybiaeth gyffredinol yr ymdrinnir â materion drwy weithdrefnau ysgrifenedig:

“PEBA is very concerned that, effectively in the first place, there is, overall, something of a democratic deficit, certainly in relation to proposals that might have a very profound impact on people's property rights and their right to family life and so on and not being unduly disturbed. [...] There is a concern that a really major proposal could go through affecting somebody's home and family life very profoundly and they would never have had the right to a hearing at any stage. There is a real concern about that in terms of human rights and Aarhus compatibility.”¹²²

Ein barn ni

224. Mae'r dyfyniad uchod gan y PEBA yn crynhoi'n pryder ninnau ynghylch yr effaith gronol y gallai'r Bil hwn ei chael, o'i gadael heb ei diwygio, ar hawliau unigolion.

225. Drwy'r adroddiad hwn i gyd, rydym wedi gwneud argymhellion sydd, gyda'i gilydd, yn ceisio sicrhau bod darpariaethau'r Bil yn fwy democrataidd. Mae hyn yn cynnwys ein hargymhellion ynglŷn â'r FfDC a DACau ym

¹²⁰ Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 46, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad gan Gymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig*, Tachwedd 2014

¹²¹ *Deddf Cynllunio 2008* p.29

¹²² Cofnod y Trafodion 3 Rhagfyr 2014 c.352

mhenodau 2 a 4 o'r adroddiad hwn. O'u cymryd ynghyd, rydym yn credu y byddai rhoi'r argymhellion hyn ar waith yn gwneud rhywfaint o leiaf i fynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd gan y PEBA.

226. Rydyn ni hefyd yn cefnogi awgrym Cymdeithas y Cyfreithwyr y dylai terfynau amser gofynnol gael eu cyflwyno er mwyn diogelu hawliau unigolion sydd â buddiannau yn hyn o beth.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 45 o'r Bil er mwyn gosod terfynau amser gofynnol ar gyfer ymateb i geisiadau am wybodaeth yn sgil apelau, galw ceisiadau i mewn a cheisiadau uniongyrchol.

6. Datganiad Dylunio a Mynediad

227. Bydd adran 27 yn dileu'r darpariaethau yn y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi gael datganiad dylunio a mynediad (DDM) gyda cheisiadau cynllunio am fathau penodol o ddatblygiad. Er hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod wedi ymrwymo o hyd i sicrhau gwaith dylunio da mewn datblygiadau, a hwnnw'n cynnwys trefniadau mynediad cynhwysol. Mae wedi cyhoeddi ymgynghoriad ynghylch Dylunio yn y Broses Gynllunio sydd hefyd yn cynnig dileu'r gofyniad ynglŷn â DDMau o'r is-ddeddfwriaeth, gan ei ddisodli â nifer o gamau eraill y mae'n dweud eu bod "yn fwy tebygol o sicrhau dylunio da a mynediad cynhwysol".¹²³

228. Gwelodd yr ymchwil ynghylch DDMau a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru hyn:¹²⁴

- Argraff gyffredinol yr ymgeiswyr yw bod y gofyniad gorfodol bod rhaid cael DDM wedi mynd yn ymarfer ticio blwch sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion dilysu, heb fawr ddim effaith ar ansawdd gwaith dylunio a mynediad cynhwysol;
- Mae'r adroddiad yn dweud mai un gwerth cadarnhaol allweddol i DDMau yw eu rôl fel dull cyfathrebu i amryw o gynulleidfaeod;
- Gwelodd yr ymchwil fod DDMau wedi codi proffil gwaith dylunio a mynediad cynhwysol, a'u bod yn dod â chysondeb o ran sut mae'r rhain yn cael eu hystyried a'u cyflwyno yn y broses gynllunio;
- Argymhellodd yr adroddiad y dylai DDMau gael eu cadw fel dull cyfathrebu, ond dim ond fel gofyniad gorfodol ar gyfer ceisiadau mewn categorïau penodol (e.e. adeiladu rhestredig/dynodiadau) ac uwchlaw trothwyon penodol ar gyfer nifer yr aneddiadau/maint (e.e. dros 10 o aneddiadau).

229. Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch Dylunio yn y Broses Gynllunio yn dweud:

"Er bod DDMau yn fuddiol at ddibenion cyfathrebu, nid ydym wedi'n hargyhoeddi bod hynny'n ddigon o reswm dros eu cadw'n ofyniad gorfodol ar gyfer pob math o gais cynllunio. Yn ein barn ni, dylid

¹²³ Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad ynghylch dylunio yn y broses gynllunio, Hydref 2014

¹²⁴ Llywodraeth Cymru, Adolygiad o Ddatganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru, Tachwedd 2013

canolbwyntio adnoddau ar ffyrdd eraill o sicrhau dylunio da a mynediad cynhwysol.”¹²⁵

230. Yn Lloegr, mae'r gofynion yn y ddeddfwriaeth sylfaenol ac yn yr is-ddeddfwriaeth yn parhau, ond yn ddiweddar cafodd yr is-ddeddfwriaeth ei diwygio i beri mai dim ond ar gyfer 'datblygiadau sylweddol' y mae angen DDM.

231. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei fod yn fodlon meddwl ymhellach am y mater hwn ac y byddai'n gas ganddo feddwl "that anything is being hidden or buried in the building regulations".¹²⁶

232. Mae llythyr y Gweinidog ar 7 Ionawr yn dweud na welodd yr ymchwiler unrhyw "significant evidence" bod DDMau yn bwysig o ran sicrhau gwaith dylunio da ac nad oedden nhw wedi gwneud fawr ddim i ehangu argraff yr ymgeiswyr o fynediad cynhwysol.¹²⁷ Mae'r llythyr hefyd yn dweud ei fod wrthi'n ceisio sylwadau drwy'r ymgynghoriad ar fanteision cadw DDMau ar gyfer ceisiadau penodol. Er hynny, mae'r ddogfen ymgynghori'n dweud:

"[...] rydym yn bwriadu dileu'r angen i gyflwyno DDMau gyda cheisiadau cynllunio ac rydym o'r farn y bydd y camau yr ydym yn bwriadu'u cymryd yn eu lle yn fwy tebygol o sicrhau dylunio da a mynediad cynhwysol."¹²⁸

233. Rhoddodd y Gweinidog ragor o wybodaeth ynglŷn â'i fwriad yn ei lythyr ar 21 Ionawr 2015. Dangosodd hwn ei fod o blaid cadw DDMau ar gyfer y datblygiadau mwyaf ac mewn mannau sensitif. Er hynny, byddai ei awgrym ef yn dal yn dileu'r gofyniad ynglŷn â DDMau yn y ddeddfwriaeth sylfaenol ac yn bwrw ymlaen â newidiadau drwy is-ddeddfwriaeth.¹²⁹

Ein barn ni

234. Mynegodd llawer o'r tystion a ymddangosodd gerbron y Pwyllgor yn ystod ein hystyriaethau Cyfnod 1 ar y Bil y farn y gall DDMau fod yn ddefnyddiol, yn enwedig felly o ran y datblygiadau mwyaf.

¹²⁵ Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad ynghylch dylunio yn y broses gynllunio, Hydref 2014

¹²⁶ Cofnod y Trafodion 27 Tachwedd 2014 c.187

¹²⁷ Llythyr gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, 7 Ionawr 2015

¹²⁸ Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad ynghylch dylunio yn y broses gynllunio, Hydref 2014

¹²⁹ Llythyr gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, 21 Ionawr 2015

235. Er ein bod yn derbyn y bydd y Gweinidog yn dymuno ystyried canlyniad ei ymgynghoriad cyn cymryd y penderfyniad terfynol ar y mater hwn, mae'r dystiolaeth a gawsom yn ein harwain i gredu bod model Lloegr, lle mae'r gofyniad yn y ddeddfwriaeth sylfaenol yn parhau, ond lle nad yw'r is-ddeddfwriaeth ond yn ei gwneud yn ofynnol paratoi DDM ar gyfer 'datblygiadau sylweddol', yn cynnig diwygiad cymesur. Rydyn ni o'r farn bod cadw'r gofyniad yn y ddeddfwriaeth sylfaenol yn bwysig fel datganiad symbolaidd ynghylch materion dylunio a mynediad mewn penderfyniadau cynllunio.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gadw'r gofyniad yn y ddeddfwriaeth sylfaenol ynghylch Datganiadau Dylunio a Mynediad drwy ddileu adran 27 ac y dylai'r is-ddeddfwriaeth gysylltiedig gael ei diwygio fel mai ar gyfer y datblygiadau mwyaf ac adeiladau rhestredig yn unig y dylai fod yn ofynnol paratoi datganiadau.

7. Meysydd Tref a Phentref

236. Bydd adrannau 47-50 fel y maen nhw wedi'u drafftio ar hyn o bryd yn gwahardd ceisiadau am gofrestru tir yn Faes Tref neu Bentref ("TVG") os yw'r tir wedi dod i mewn i'r system gynllunio. Mae'r adrannau hyn yn dyblygu newidiadau sydd eisoes wedi'u cyflwyno yn Lloegr gan Ddeddf Twf a Seilwaith 2013.¹³⁰

237. Bydd adran 47 yn lleihau'r cyfnod ar gyfer gwneud cais Maes Tref neu Bentref (ar ôl i'r cyfnod o 20 mlynedd o'u defnyddio at ddibenion hamdden "o ran hawl" grynhoi ond ei fod mewn gwirionedd wedi dod i ben) o ddwy flynedd i un.

238. Bydd adran 48 yn galluogi tirfeddiannwr i gyflwyno datganiad a map i'r awdurdod cofrestru tir comin (yr awdurdod lleol) er mwyn rhoi cydsyniad i bob pwrpas i'w dir gael ei ddefnyddio at ddibenion hamdden heb y risg o weld cais yn cael ei gyflwyno am gofrestru Maes Tref neu Bentref.

239. Bydd adran 49 yn dileu'r hawl i wneud cais am gofrestru Maes Tref neu Bentref o dan amgylchiadau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys ar ôl cyflwyno cais cynllunio ynglŷn â'r tir, neu ar ôl i'r tir gael ei nodi yn yr FfDC, mewn CDS neu CDLI. Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio, dileu neu ychwanegu at y rhestr o ddigwyddiadau a all 'sbarduno' neu 'derfynu' y penderfyniad i ddileu'r hawl i wneud cais am gofrestru.

240. Bydd adran 50 yn gwneud darpariaeth ychwanegol o ran y ffioedd am gofrestru Maes Tref neu Bentref. Mae'r Datganiadau o Fwriad y Polisi hefyd yn dweud nad oes bwriad i gyflwyno ffi am gofrestru Maes Tref neu Bentref "ar hyn o bryd". Byddai unrhyw gynnig o'r fath "yn destun ymgynghoriad a chymeradwyaeth ar wahân".

241. Mae'r Gweinidog wedi dweud ei fod yn ystyried cyflwyno gwelliannau a fyddai'n caniatáu cais am gofrestru Maes Tref neu Bentref hyd at y pwynt lle rhoddir caniatâd cynllunio. Bydd hynny'n golygu diwygio Atodlen 6 er mwyn dileu digwyddiadau 'sbarduno' penodol. Mae llythyr y Gweinidog ar 7 Ionawr yn cadarnhau mai'r unig ddigwyddiadau sbarduno y mae'n bwriadu eu cadw yw'r rhai sy'n ymwneud â rhoi caniatâd cynllunio (neu'r hyn sy'n cyfateb iddo). Mae hynny'n golygu y bydd yn dal yn bosibl gwneud cais am

¹³⁰ Deddf Twf a Seilwaith 2013 p.27

gofrestru Maes Tref neu Bentref ar safle a nodwyd yn yr FfDC, neu mewn CDS neu CDLI a fabwysiadwyd.¹³¹

242. Dywedodd y PEBA wrth y Pwyllgor:

“I am absolutely certain that that proposal would simply delay the determination of planning applications, because planning committees would be lobbied to say, ‘There’s an outstanding TVG application here’. [...] All that that is going to do is to continually put off the taking of the planning decision, which, it seems to me, is directly contrary to the culture change that the Government is looking to bring about through this Bill.”¹³²

243. Mae Cymdeithas y Cyfreithwyr wedi rhoi tystiolaeth ychwanegol i’r Pwyllgor sy’n dweud na fyddai hyn ond yn parhau “the present situation where a developer is at risk throughout the period when costs are being incurred in progressing the application”.¹³³

244. Dywedodd y Gweinidog y byddai’n rhoi rhagor o ystyriaeth i’r cynnig cyfredol yn adran 47 o’r Bil i leihau’r cyfnod amser ar gyfer cyflwyno cais TVG o ddwy flynedd i un.¹³⁴

Ein barn ni

245. Mae’r darpariaethau yn y Bil ynglŷn â Meysydd Tref neu Bentref, fel y maen nhw wedi’u drafftio ar hyn o bryd, wedi peri peth pryder inni. Rydym wedi gofyn droeon am enghreifftiau lle mae ceisiadau am Faes Tref neu Bentref wedi’u gwneud yn unswydd i rwystro’r broses gynllunio. Mae’r tystion wedi methu rhoi unrhyw dystiolaeth argyhoeddiadol bod hyn yn fater arwyddocaol yng Nghymru.

246. Rydym yn ddiolchgar i’r Gweinidog am wrando ar y dystiolaeth sydd wedi dod i law ac am ei barodrwydd i ailedrych ar yr agwedd hon ar y Bil. Bydd y gwelliannau y mae wedi’u hawgrymu, o’u gwneud, yn mynd i’r afael yn sylweddol â’n pryderon.

¹³¹ Llythyr gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol at Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, 7 Ionawr 2015

¹³² Cofnod y Trafodion 3 Rhagfyr 2014 c.438

¹³³ Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd PB 55, *Bil Cynllunio (Cymru); Cyflwyniad Ychwanegol gan Gymdeithas Cyfreithwyr Cymru a Lloegr*, Tachwedd 2014

¹³⁴ Cofnod y Trafodion 14 Ionawr 2015 c.223

247. Ar ben y gwelliannau y mae'r Gweinidog eisoes wedi ymrwymo i'w cyflwyno, fe hoffen ni weld y Bil yn cael ei ddiwygio i ddileu darpariaethau a fyddai'n lleihau'r cyfnod amser ar gyfer cyflwyno cais am Faes Tref neu Bentref o ddwy flynedd i un.

248. Gan nad yw'r Gweinidog yn bwriadu cyflwyno ffi am geisiadau am Faes Tref neu Bentref, rydym yn credu bod adran 50 yn ddiangen.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno'r gwelliannau i Atodlen 6 (Meysydd tref a phentref: Atodlen 1B newydd i Ddeddf Tir Comin 2006) o'r Bil er mwyn dileu digwyddiadau sbarduno, yn unol â'r amlinelliad yn ei lythyr at y Cadeirydd ar 7 Ionawr 2015 a hynny ar y cyfle cyntaf.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i ddileu adran 47 sef darpariaethau a fyddai'n lleihau'r cyfnod amser ar gyfer cyflwyno cais am Faes Tref neu Bentref o ddwy flynedd i un.

Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i ddileu adran 50 o'r Bil, sef darpariaethau a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru bennu ffioedd am geisiadau i ddiwygio cofrestrau tir comi a meysydd tref neu bentref.

Atodiad 1: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn: www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?ID=147

Sefydliad neu unigolyn	Cyfeirnod
Tenovus	PB 01
Sian Elin Jones	PB 02
Grŵp Mynediad Sir Benfro	PB 03
Three	PB 04
Dathlu'r Gymraeg	PB 05
Dyfodol i'r Iaith	PB 06
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	PB 07
Sefydliad y Peirianwyr Sifil Cymru	PB 08
Cynghorwyr amrywiol	PB 09
Leonard Cheshire Disability	PB 10
Y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy	PB 11
Sefydliad yr Archeolegwyr	PB 12
Cymdeithas Cwmnïau Ffonau Symudol	PB 13
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	PB 14
Y Gymdeithas Mannau Agored	PB 15
Cyswllt Amgylchedd Cymru	PB 16
Cyngor Sir Ceredigion	PB 17
Cymdeithas Siopau Cyfleus	PB 18
Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol	PB 19
Taylor Wimpey UK Limited	PB 20
Redrow Homes	PB 21
RNIB Cymru	PB 22
RenewableUK Cymru	PB 23
Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru	PB 24
Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru	PB 25

Anabledd Cymru	PB 26
Cymorth Cynllunio Cymru	PB 27
Cymdeithas Llandaf	PB 28
Grŵp RWE	PB 29
Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru	PB 30
Vattenfall	PB 31
RSPB	PB 32
Ffederasiwn Busnesau Bach	PB 33
Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi	PB 34
Boyer Planning	PB 35
Comisiynydd y Gymraeg	PB 36
Cyngor Sir Penfro	PB 37
Mentrau Iaith Cymru	PB 38
Cyfoeth Naturiol Cymru	PB 39
BMA Cymru	PB 40
Tidal Lagoon Power	PB 41
Severn Trent Water	PB 42
Energy UK	PB 43
Cyfeillion y Ddaear Cymru	PB 44
Cartrefi Cymunedol Cymru	PB 45
Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU	PB 46
Gareth Young	PB 47
Cŵn Tywys Cymru	PB 48
Cylch yr Iaith	PB 49
Aldi	PB 50
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg	PB 51
Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig	PB 52
Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru	PB 53
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	PB 54
Cymdeithas y Cyfreithwyr Cymru a Lloegr	PB 55

Fforwm Ymgynghorwyr Cynllunio Cymru

PB 56

Sustrans

PB 57

Y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad

PB 58

Atodiad 2: Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r cyfarfodydd yn

www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=8979

27 Tachwedd	
Sesiwn 1	
Carl Sargeant AC	Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Neil Hemington	Llywodraeth Cymru
Dion Thomas	Llywodraeth Cymru
Sarah Dawson	Llywodraeth Cymru
Sesiwn 2	
Y Cyngorydd Anthony Jones	Cyngor Sir Caerfyrddin
Y Cyngorydd Andrew Morgan	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Cyngorydd John Wyn Williams	Cyngor Gwynedd
Y Cyngorydd Giles Howard	Cyngor Sir Fynwy
Sesiwn 3	
Aled Davies	Cyngor Gwynedd
Eifion Bowen	Cyngor Sir Caerfyrddin
Marcus Goldsworthy	Cyngor Bro Morgannwg
Jane Lee	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Sesiwn 4	
Martin Buckle	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Jane Gibson	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Jonathan Cawley	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Sesiwn 5	
Lyn Cadwallader	Un Llais Cymru
Mike Cuddy	Un Llais Cymru
Paul Egan	Un Llais Cymru
3 Rhagfyr	
Sesiwn 6	
Emyr Roberts	Cyfoeth Naturiol Cymru
Sarah Wood	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rhian Jardine	Cyfoeth Naturiol Cymru
Sesiwn 7	
Roisin Willmott	Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru
Lyn Powell	Fforwm Ymgynghorwyr Cynllunio Cymru
Mark Roberts	Fforwm Ymgynghorwyr Cynllunio Cymru
Sesiwn 8	
Morag Ellis QC	Cymdeithas y Bar ar Gynllunio a'r Amgylchedd
Huw Williams	Cymdeithas y Cyfreithwyr
Tim Morgan	Cymdeithas y Cyfreithwyr
Dr Victoria Jenkins	Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU
Dr Haydn Davies	Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU
11 Rhagfyr	
Sesiwn 9	
Josh Miles	Ffederasiwn Busnesau Bach
Ben Francis	Ffederasiwn Busnesau Bach
Mark Harris	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
David Morgan	Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig Cymru
John Pockett	Cyddfederasiwn Cludwyr Teithwyr Cymru
Matthew Williams	RenewableUK

Sesiwn 10	
Dyfan Sion	Comisiynydd y Gymraeg
Huw Gapper	Comisiynydd y Gymraeg
Sesiwn 11	
Colin Nosworthy	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Tamsin Davies	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Emyr Lewis	Dyfodol i'r Iaith
Meirion Davies	Dyfodol i'r Iaith
Sesiwn 12	
Naomi Luhde-Thompson	Cyfeillion y Ddaear
Sesiwn 13	
Nicola Hodgson	Y Gymdeithas Mannau Agored
Beverley Penney	Y Gymdeithas Mannau Agored
Helen Thomas	Cymorth Cynllunio Cymru
Matt Hemsley	Sustrans
Lindsey Curtis	Sustrans
14 Ionawr	
Sesiwn 14	
Carl Sargeant AC	Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Neil Hemington	Llywodraeth Cymru
Dion Thomas	Llywodraeth Cymru
Sarah Dawson	Llywodraeth Cymru